

NODIADAU TESTUNOL

Nid esbonio pynciau'r gyfraith yw diben y Nodiadau hyn, gan y gwnaed hynny gan sawl un o'm blaen. Am gyflwyniad cyffredinol i gefndir a chysyniadau'r gyfraith frodorol fel cyfangorff, gw. Dafydd Jenkins, *Cyfraith Hywel* (Llandysul, 1970), ac *idem*, *The Law of Hywel Dda* (Llandysul, 1986). Ar y deunydd Bleg, gw. Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd* (Caerdydd, 1942), ynghyd â Melville Richards (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llawysgrif Coleg yr Iesu LVII*, ail arg. (Caerdydd, 1990). Ar y deunydd Ior, gw. Aled Rhys Wiliam, *Llyfr Iorwerth* (Cardiff, 1960), ynghyd â Dafydd Jenkins, *Llyfr Colan* (Caerdydd, 1963) ac *idem*, *Damweiniau Colan* (Aberystwyth, 1973). Ar y deunydd Cyfn, gw. A. W. Wade-Evans (gol.), *Welsh Medieval Law* (Oxford, 1909), ynghyd â Sara Elin Roberts (gol.), *Llawysgrif Pomffred: An Edition and Study of Peniarth MS 259B* (Leiden a Boston, 2011).

Yn y nodiadau a ganlyn canolbwyntir yn bennaf ar dynnu sylw at dri maes: i) materion iaith ac orgraff; ii) y manau hynny lle y mae darlleniadau *S* yn wahanol i eiddo rhychwant o lsgrau eraill; a iii) y manau hynny lle y mae'r un deunydd sylfaenol, neu amrywiad(au) arno, yn digwydd mwy nag unwaith yn *S*.

*rhif yr
adnod*

- 1** Ar y Rhaglith, gw. y Rhagymadrodd, tt. vii–viii, a Huw Pryce, 'The Prologues to the Welsh Lawbooks', *BBGC*, 33 (1986), 151–87.
mab Gadell: Braidd yn annisgwyl yw'r treigladd. Yn y Cyfnod Canol treiglid yn feddal gytsain ddechreuol enw genidol ar ôl enw benywaidd unigol (felly *Stauell Gyndylan*, *Branwen uerch Lyr*); gw. *GMW*, t. 14. Fodd bynnag cadwyd hefyd enghreifftiau achlysurol o dreiglo enw priod ar ôl *mab* (ac *wyr* a *nai*) yng ngwaith rhai o'r cywyddwyr diweddar; gw. *TC*, tt. 108–9. Darlleniad y llsgrau eraill yw *mab Kadell*. Ar Hywel Dda, gw. y Rhagymadrodd, vii–viii.
a phriore, hit y: Darlleniad y llsgr. yw *a phrior / ehit yr*, ac y mae'n bosibl y dylid bod wedi deall *a phriorehit y'r*.
y Tu G6ynn yn Nyfed: Hendy-gwyn yn sir Gaerfyrddin. Sefydlwyd abaty Sistersaidd enwog yno ymhen rhyw ddwy ganrif ar ôl oes Hywel Dda. Er nad oes dim yn erbyn credu y gallai Hywel fod wedi trefnu cynhadledd yn y lleoliad arbennig hwn, y mae'n fwy tebygol bod enwi'r Tŷ Gwyn yn rhan o'r broses o bwysleisio cydweddiad Cyfraith Hywel â safonau eglwysig, etc. Gw. y Rhagymadrodd, tt. vii, x.
- 2** **adail:** Berfenw'r ferf *adeiliaf: adail*, 'codi adeilad, saernïo, cynllunio', neu efallai'n gywirach yn y cyd-destun presennol, 'plethu, eilio'; *GPC*, t. 16.
- 4** **yr Athra6 Blege6ryt:** Gw. y Rhagymadrodd, t. x.
- 6** **y dechreu6ys:** Nid yw'n amhosibl mai gwall copïo yw y *dechreu6ys* am *yd erchis*, sef darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau Bleg eraill, a cf. Lladin D, *Tres autem libros legis precepit fieri consimiles*. Ond cf. y ferf ar ddechrau § 5 yn *L*, y *dechreuis*, a *J*, y *dechreuawd*.
- 8** **a'r h6nn Gymry oll:** 'ac un Cymru oll'. Yn y Cyfnod Canol defnyddid rhagenw dangosol yn aml yn lle enw y mae ansoddair neu enw genidol yn dibynnu arno er mwyn arbed ailadrodd; gw. *GMW*, t. 83. Yn ogystal, defnyddid *yr hwn* (gwrywaidd) yn gyffredin i olygu 'yr un' (*GMW*, t. 69) ac y mae'n debyg mai yn y modd hwn y'i defnyddir yma, er mai'r rhagenw benywaidd a ddisgwylir (= *melldith*); cf. darlleniad *L*, ac *vn Gymry oll*. Nid amherthnasol yw nodi nad yw'r

- copïydd bob amser yn gwahaniaethu'n glir rhwng *o* ac *6* wrth ysgrifennu. Ar y berthynas rhwng /o/ ac /u/ yn *S*, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /u/. Gw. hefyd § 314n.
- 9 **kyfreith y lys beunydia6l:** Ar Gyfreithiau'r Llys, gw. T. M. Charles-Edwards, M. E. Owen a Paul Russell (gol.), *The Welsh King and his Court* (Cardiff, 2000). Fel y nodwyd yn y Rhagymadrodd, tt. xxvii, xxxv–xxxvii, y mae *S* yn perthyn i ddosbarth o destunau Bleg sydd yn hepgor Cyfreithiau'r Llys. Gw. hefyd §§ 23–5n., 29n.
- 15 Cf. § 2012.
- 22 **agen:** 'hagen'. Ar golli /h/ ddechreuol yn y testun hwn, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /h/.
- 23–5 Y mae'r fersiwn talfyredig hwn ar draethig Yr Edling (gw. *LIBleg* § 6 am y fersiwn llawn), ynghyd â'r ffaith yr hepgorwyd *LIBleg* § 5 (Cymdeithas y Brenin) a *LIBleg* § 7 (Rheidiau'r Edling) yn gyfan gwbl, fel petai'n rhagflas o'r gwaith golygyddol helaethach sy'n nodweddu testun *S* (ynghyd ag *O*, *Tr*, *I*) mewn perthynas â hepgor Cyfreithiau'r Llys. Gw. hefyd § 29n.
- 27 **a leher:** 'a leheir'; amhersonol presennol mynegol y ferf *llehaf*: *llehau*, 'lleoli, [...] dodi neu osod (person neu beth) mewn lle neilltuol'; *GPC*, t. 2143. Ar *e* am /ei/ yn y testun hwn, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ei, eə/.
- 29 **Peida6 6ethion ... :** O'r pedair llsgr. sy'n hepgor Cyfreithiau'r Llys (*O*, *Tr*, *I* ac *S*), yn y fan hon y ceir yr esboniad mwyaf datblygedig dros eu gollwng—ffraith nad yw'n gwbl annisgwyl, efallai, gan mai *S* yw'r ddiweddaraf o'r pedair. Ar hepgor Cyfreithiau'r Llys, gw. y Rhagymadrodd, tt. xxviii, xxxv–xxxvii.
- 30 **teir kolofyn kyfreith:** Ceir trafodaeth fanwl ar Dair Colofn Cyfraith yn T. M. Charles-Edwards a Paul Russell (gol.), *Tair Colofn Cyfraith, The Three Columns of Law in Medieval Wales: Homicide, Theft and Fire* (Bangor, 2005).
na6 affeith: Gw. Paul Russell, 'Y Naw Affaith: Aiding and Abetting in Welsh Law', yn Charles-Edwards a Russell (gol.), *Tair Colofn Cyfraith*, tt. 146–70.
- 32 **tr6y y g6neir:** 'y gwneir trwyddynt'. Enghraifft o gystrawen bur anghyffredin mewn Cymraeg Canol lle y defnyddid *trwy y(d)* fel cysylltair, yn tarddu o bosibl o un o'r cystrawennau a ddefnyddid mewn cymal perthynol o dan reolaeth arddodiad; gw. *GMW*, t. 244. Gw. hefyd nodyn G. J. Williams ar y gystrawen yn *Y Llenor*, 21 (1942), 51, lle yr awgrymir mai 'provided that' yw'r ystyr, a cf. *LTWL*, t. 332.
- 48 **ae:** 'eu'. Ar gymysgu /aə, eə/ yn y testun hwn, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ae, ai, aə/.
- 49 **o varchogaeth, a llein, a g6reic:** *S* yw'r unig llsgr. o blith rhai Bleg i gynnwys yr ymadrodd hwn, ond fe'i ceir yn llsgrau Cyfn; gw. *WML*, t. 37, *LIPom*, § 346n. Ystyr *diofredog* yw 'dan lw i ymwadu, wedi ymdyngu i ymwrthod'; *GPC*, t. 1025. Gw. hefyd Huw Pryce, *Native Law and the Church in Medieval Wales* (Oxford, 1993), tt. 44–7.
- 50 **a'e talant sarhaet:** Enghraifft o ddefnyddio'r rhagenw mewnol gwrthrychol pan fo'r gwrthrych yn dilyn y ferf; gw. *GMW*, tt. 56–7.
- 51 **y tat:** 'i'w dad'.
- 65 **Pryder:** 'Gofal, carc, [...] gwarchodaeth'; *GPC*, t. 2916. Cf. § 1855n.
- 68 **o'e y gymryd:** Ysgrifennid cyfuniad yr arddodiad *i* + rhagenw mewnol 3 unigol mewn amryw o ffyrdd yn y Cyfnod Canol (gw. *GMW*, t. 53). Gallai *o'e* y gynrychioli rhyw fath o ffurf ddwbl (<o + e, y + y?); posibilrwydd arall yw tybio i'r copïydd ysgrifennu *oe*, ei 'foderneiddio' i *y*, ac anghofio dileu ei gynnig cyntaf. Ceir fersiwn helaethach ar yr adnod hon yn *LIBleg* § 34:37.

- 69–71** Cf. §§ 2000–2, 2185–7. Ar y triawd hwn a'r gwahanol fersiynau arno a gadwyd yn y llsgrau, gw. Sara Elin Roberts, 'Tri Dygyngoll Cenedl: The Development of a Triad', *SC*, 37 (2003), 163–82. Ar y trioedd cyfraith yn gyffredinol, gw. *eadem*, *The Legal Triads of Medieval Wales* (Cardiff, 2007).
- 69** **y llad y dyn:** 'ei ladd y dyn'; enghraifft o ddefnyddio rhagenw blaen o flaen berfenw a ddilynir gan y gwrthrych; gw. *GMW*, t. 54.
- 71** **drosta6:** Â ffurf y llsgr., *dorsta6*, cf. *dors*, § 2298.
- 75** **rodi kyghor:** Ychydig yn wahanol yw pwyslais *O, Tr, L, kyghori mynet*, ond *rodi kyghor* sydd yn *I, J, M, N, P, Q* ac *R*; cf. Lladin D, *dare consilium*.
- 90** **ada6ho:** 'a ada6ho'. Ceir llawer o enghreifftiau yn y testun hwn o hepgor y rhagenw perthynol, yn enwedig o flaen berf yn dechrau ag *a-*; cf. *ardel6o*, § 1334; *ada6o*, § 1924. Gw. hefyd § 1448n.
odyn ty: Darlleniad yr holl destunau Bleg eraill (ac eithrio *I*, sy'n cytuno ag *S*) yw *odyn venffyc*; cf. Lladin D, *in odyn sibi acomodato*.
- 108** **ac ar dr6s yr egl6ys:** *I* ac *S* yw'r unig destunau Bleg sy'n cynnwys y cymal hwn. Tyngu ar ddrws y fynwent ac ar ddrws y côr yn unig a wneir yn y llsgrau eraill, a cf. Lladin D, *in ostio cimiterii et in ostio chori*. Cf. hefyd y tyngu mewn tair man yn §§ 111–12.
- 116** **E:** 'y', y fannod. *Y* yw'r ffurf arferol arni yn y testun hwn, ond ceir un enghraifft arall o *e*, yn § 2179. Am ffurfiau eraill ar y fannod, gw. yr Eirfa.
deudeg mu dir6y: Yn ôl y testunau eraill, *dirwy deudyblyc* (sef pedair bu ar hugain) a delid i'r brenin dros gynllwyn, a cf. Lladin D, *xxiiii^{or} vaccas regi reddet*.
- 117–35** Y mae'r fersiwn hwn o'r Naw Nyn Credadwy fel petai'n grynodedeb o'r traethig fel y'i cadwyd *LlBleg* § 38 (mewn gwirionedd rhestrir deuddeg dyn yma, gw. *LlBleg*, t. 183); gw. hefyd § 455n.
- 128** **er g6aethy:** 'er mwyn amharu ar'. Ystyr *gwaethaf:* *gwaethu* yw 'niweidio, amharu ar, gwneud drwg i, drygu; mynd yn waeth, dirywio, gwaethygu'; *GPC*, t. 1551.
- 136** **dyly talu:** 'dyly y talu', trwy gywasgiad.
- 140–86** Ar gyfraith Mach, gw. T. M. Charles-Edwards, Morfydd E. Owen a D. B. Walters (gol.), *Lawyers and Laymen* (Cardiff, 1986), a Robin Chapman. Stacey, *The Road to Judgement: from Custom to Court in Medieval Ireland and Wales* (Philadelphia, 1991).
- 146** **vach kynnogynn:** Gw. §§ 163–4n.
- 150** **kany chymer:** Darlleniad y testunau Bleg eraill i gyd yw *kyny chymero*, ac ymddengys felly bod *S* yn rhoi cambwyslais yn y fan hon: y mae'r mach yn atebol i'r hawlwr *er* na chymero ffydd y talawdr yn hytrach na *chan* nas cymero. Er nad yw /a/ fel arfer yn amrywio ag /ə, y/ yn y goben acennog yn *S* (gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /a/), y mae § 158 yn awgrymu y gall mai orgraff am *kyny* yw *kany* yn y ddwy enghraifft hyn, a cf. § 165 lle y ceir *kynys* = *kanys*, ac § 181 lle y ceir *kynny* = *kanny*.
- 158** **Kany:** Gw. § 150n.
- 160** **bridyw:** Gw. Huw Pryce, 'Duw yn lle Mach: Briduw yng Nghyfraith Hywel', yn Charles-Edwards, Owen a Walters (gol.), *Lawyers and Laymen*, tt. 47–71, a Stacey, *The Road to Judgement*, tt. 200–7.
- 162** **ar y seithuet:** Hynny yw, yn un o saith, sef y talawdr ynghyd â chwe pherson arall. Ar y priod-ddull, gw. *GMW*, tt. 48–9, a cf. § 1388n.
- 163–4** Y mae nodiadau *LlBleg*, tt. 183–4 a 185, ar yr adnodau hyn ac ar § 146 uchod (sef *LlBleg* §§ 40:7, 25–6) yn awgrymu bod angen diwygio cyfieithiad *AL* ohonynt

- ynghyd â'i ddealltwriaeth o'r term 'mach cynnogn'. Yn ôl *LIBleg*, nid 'debtor surety' (*AL*) yw ystyr *mach cynnogn* ond 'debtor's surety' neu 'mach dros cynnogn neu ddyledwr'. Fodd bynnag y mae Dafydd Jenkins, *LICol*, tt. 60–1, yn cadarnhau dehongliad *AL* ac yn beirniadu nodyn *LIBleg* ar y pwynt hwn—er teg nodi imi gael ar ddeall gan yr Athro Jenkins mewn nodyn personol y byddai wedi geirio'i sylwadau'n wahanol yn ddiweddarach.
- 163** **dyly y da o'r da hynny:** Yr awgrym yw y gall yr hawlwr adfeddiannu'r eiddo a werthasai i'r dyn marw, ond yn ôl y testunau eraill dylai gael ei *dal*u am yr eiddo hwnnw. Y mae'n bosibl felly mai gwall copïo sydd yma am *dyly y da[l] o'r da hynny*.
- 165** **kynys:** 'canys'; gw. § 150n.
- 169** **ll6:** Er bod *LIBleg*, t. 185, yn gwrthod y darlleniad hwn (yn *O*, *Tr*) o blaid *llud* (*L*), *ll6* sydd yn *I*, *N*, *O*, *P*, *Q*, *Ep*, *R*, *T*, *Tr*, *S*, a cf. Lladin D, *contra iuramentum domini sui*. Yr unig destunau y sylwyd arnynt sy'n cytuno ag *L* yw *J*, *Z* a *WML*.
- 170** Ymddengys y gellir olrhain yr adnod hon i'r *Collectio Canonum Hibernensis*, Lib. XXXIV. Cap. 3, sef corff o gyfraith eglwysig Wyddelig sy'n deillio o'r wythfed ganrif; gw. Hermann Wasserschleben (gol.), *Die Irische Kanonensammlung* (Leipzig, 1885). Am ragor o ddeunydd sy'n deillio o'r *Collectio*, gw. § 1889n.
- 174** **kynnygyn:** *kynnogyn* yw darlleniad y llsg., fel yn *O*, ond y mae'r ystyr yn mynnu'r ffurf luosog; cf. *LIBleg*, t. 185.
- 177–86** Dyma'r unig adran sylweddol o ddeunydd ychwanegol a osodwyd ar ganol y testun Bleg yn *S* (gwrthgyferbynnu'r y modd yr ychwanegwyd deunydd ar ganol y testun Bleg yn *Q*, *Ep*, *P*; gw. y Rhagymadrodd, tt. xxxiv–xxxv). Fe'i gosodwyd mewn ffordd ddigon destlus, ar ddiwedd traethig ar yr un thema, sef *Mach*.
- 181** **o nos Pasc g6edy dat6yrein:** Yn ôl Mathew 28:1, yn ystod 'nos Pasg'—h.y., ar ôl y Sabath Iddewig a chyn toriad gwawr y trydydd dydd ar ôl y Croeshoeliad—yr atgyfododd Crist, ac y mae'n bosibl mai dyna arwyddocâd *dat6yrein* ('atgyfodiad') yma. Fodd bynnag, o sylwi ar gyfeiriadau'r adnod hon at y gosber a'r offeren, mwy tebygol yw bod yma gyfeiriad at ddefod arbennig, sef yr atgyfodiad seremonïol neu symbolaidd a ddethlid mewn eglwysi canoloesol cyn toriad gwawr Sul y Pasg: 'On Good Friday there took place the most striking of the symbolic rites. The crucifix was brought down to the steps of the altar and each member of the congregation crept forward on his knees to kiss the cross. Later, the crucifix and the host were carefully wrapped in a napkin and buried in a sepulchre near the altar [...]. Early on Easter morning there was a ceremony at the sepulchre and, in some cases, liturgical drama, to symbolize the resurrection'; Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (Cardiff, 1962), t. 512.
- dy6 Pasc Bychan:** 'Low Sunday', sef y Sul ar ôl Sul y Pasg; *GPC*, t. 2698.
- Sul y Drinda6t:** Y Sul ar ôl y Sulgwyn.
- 182–5** Cf. § 1715–18.
- 182** **keinha6c:** Darlleniad *I* yw *deudec keinha6c*, ond nid yw'r un llsg. arall yn cytuno â hi; *keinha6c* sydd gan *I* hithau yn ail hanner yr adnod hon.
- 183** **.ii. beth ma6r:** Darlleniad *Lllor*, *WML* yw *beth mawr*, a cf. hefyd § 1717. Y mae'n bosibl mai gwall copïo yw *.ii.* yma felly; cf. y rhagenw blaen 3 unigol gwrywaidd, y *gymryd*.
- 187–209** Gw. Meinir E. Harris, 'Iawndal am niwed corfforol yng Nghyfraith Hywel gyda chymhariaeth â rhai cyfundrefnau cyfreithiol eraill' (traethawd MPhil anghyhoeddedig Prifysgol Aberystwyth, 1999), ac *eadem*, 'Compensation for

- Injury: A Point of Contact Between Early Welsh and Germanic Law?', yn T. G. Watkin (gol.), *The Trial of Dic Penderyn and Other Essays*, Cymdeithas Hanes Cyfraith Cymru 2 (Caerdydd, 2002), tt. 39–76.
- 198 **dec ar hugeint:** Yn ôl *O, Tr*, gwerth cilddant yw *dec a deu vgeint*.
- 199 **teilir:** 'telir'. Ar ddefnyddio *ei* am /e/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /e/.
- 204 **hyny 6eler yr amyscar:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I, Q, P* sy'n cytuno ag *S*) yw *hyny del y amyscar y maes*, a cf. Lladin D, *intestina exeant*. Â darlleniad *S*, cf. *hyt pann 6eler yr emenhyd* yn gynharach yn yr un adnod.
- 212 **y vreint:** Darlleniad y llsgrau eraill yw y *sarhaed*. Yr oedd maint sarhaed unigolyn yn dibynnu ar ei fraint; gw. *CH*, t. 14, *WLW*, t. 192.
o vreint ehynan: Nid dyma'r unig fan yn y testun hwn lle y ceir *o* am yr arddodiad *o* + rhagenw mewnol 3 unigol, cf. §§ 894, 1256, 1580 etc.
- 237–9 Digwydd yr adnodau hyn eto, yn eu cyd-destun arferol, yn ddiweddarach yn y testun, §§ 1287–9.
- 246 **a pedeir:** Un o'r ychydig enghreifftiau yn y testun hwn o beidio â dangos y Treigladd Llaes ar ôl *a*: gw. hefyd *a pan el*, § 462; *a padell*, § 502; *a pan daler* [...] *a pan ffr6ynher*, § 594; *a pendefigion*, § 1843. Treigilir yn laes bob enghraifft o /k/ a /t/ ar ôl *a*. Gw. hefyd y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan 'Y treigladdau mewn cytseiniaid dechreuol'.
- 271 **eu hamrysson:** 'y tir y buont yn ymryson amdano'.
- 273–5 Cf. §§ 2066–9.
- 275 **6rth aghyfreith:** 'oddi wrth anghyfraith, o gyflwr anghyfreithiol'; gw. *LlBleg*, t. 203.
- 281–6 Cf. § 2036–9.
- 284 **geiff eu:** 'gaiff ef'. Enghraifft brin o ddefnyddio *u* am /v/ ddiweddol yn y testun hwn; cf. *kartreu*, § 2296 a gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /v/.
- 287 **Pydi6:** 'i bwy', sef y rhagenw gofynnol *py* ynghyd â ffurf ragenwol ar yr arddodiad *i*; gw. *GMW*, tt. 77–8.
- 314 **yr h6n kytettifed h6nn6:** 'yr un cyd-etifedd hwnnw' sydd yn y llsgrau eraill. Yn § 8n. nodwyd enghraifft o ddefnydd arbennig ar yr *hwn* yn y Cyfnod Canol i olygu 'un'; felly *a'r h6nn Gymry oll* = 'ac un Cymru oll' (= 'and that [one] of all Wales'). Ond nid dyna'r ystyr yn yr ymadrodd *yr h6n kytettifed h6nn6*: nid 'that [one] of that joint-heir' a olygir, ond yn hytrach 'the one and the same joint-heir'; h.y. fe'i defnyddir yma'n ansoddeiriol yn hytrach nag yn enwol (sef ei ddefnydd yn § 8). Nid yw *GMW*, t.88, yn rhoi enghreifftiau o ddefnyddio yr *hwn* i olygu 'yr un' ansoddeiriol; tybed felly nad 'gwall' am *vn* yw *h6n*, a grëwyd trwy i lygad y copïydd neidio ymlaen at *h6nn6* yn ei gysail.
- 327 **kyghossed ... kyghassed:** 'Cynasedd' neu 'cynhasedd' oedd y 'taliad a delid i arglwydd wrth gael yr hawl i feddiannu tir, a'r taliad hwn yn rhyddhau etifedd y perchennog o orfod talu ebediw ar farwolaeth ei dad'; *GPC*, t. 778. Fe'i cyfystyrir â *gobyr estyn* yn yr adnod dan sylw yma. Ni ddylid cymysgu *kyghossed* / *kyghassed* â *kyghabsed*, er gwaethaf orgraff dwyllodrus *S*. Ystyr *cynghawsedd*, *cynghusedd* yw 'achos cyfreithiol, y weithred o ddadlau achos, dadl; cyhuddiad, achwyniad cyfreithiol [...]'; gw. *GPC*, t. 737, a hefyd *LlBleg*, t. 206.
- 330 **vn gymh6t ... vn gantref:** Treigilir yn feddal enw gwrywaidd unigol ar ôl *un* pan fo iddo'r ystyr 'same, similar'; gw. *GMW*, t. 16, a cf. *Ha6l vn gantref*, § 384.
teir oes ryeni: Yn ôl § 2474 yr oedd hwn yn gyfnod *o na6 vgeint mlyned*, *trygeint mlyned ymhob oes*.
- 331 **ass cofynho:** 'as gofynho'. Gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /g/.

- 346 **ac na allo:** Gwell yw darlleniad *O, T, Tr*, sef *oc na allo*, ‘because he is unable’.
- 357 **bret:** ‘bryd’. Er ei bod yn bosibl mai olion orgraff hŷn mewn cynsail sydd yma (arferid *e* am /i, y/ ar ddechrau cyfnod Cymraeg Canol; gw. *GMW*, t. 1), mwy tebygol efallai yw bod yma enghraifft arall o orgraff anwadal *S*; cf. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /i/ ac /y, u/.
- 364 **y ryf y k6ysseu:** Cadwyd nifer o enghreifftiau mewn Cymraeg Canol o roi’r fannod o flaen enw y mae enw genidol pendant yn dibynnu arno; gw. *GMW*, t. 25, a cf. y *kar6* y *breyr*, § 731; y *kaplan* y *brenhin*, § 865.
- 371 **wreic tla6t:** Ymddengys fod yma enghraifft o gamgyfieithu o’r Lladin—a’r gwall yn mynd yn ôl i destunau cynharaf Bleg; cf. Lladin D, *Si mulierem indigenam cuidam allud parentes* [...]. Nid ‘tlawd’ (*indigenus*) yw ystyr *indigenam*, ond ‘brodorol, yn enedigol’ (*indigena*).
- 372 **y nescir g6arthech dyfach:** Parodd yr ymadrodd hwn anhawster er y drydedd ganrif ar ddeg, a hynny, yn ôl awgrym Dafydd Jenkins, oherwydd bod ‘cyfraith galanas wedi mynd yn lled ddirym erbyn adeg sgrifennu’r llyfrau sydd gennym’; *LiCol*, t. 52. Awgrymir yn *LiBleg*, t. 208, i rywun yn gynnar yn hanes Bleg lunio *nescir* o’r ferf *nascuntur*, ‘geni, dod (o), tarddu (o)’, mewn testun Lladin: cf. Lladin A, *Ex tali coniugio nascuntur gwarthech dyuach*. Y ffurf yn *WML*, t. 62, yw *da6*, a *deleyr* sydd mewn adnod gyfatebol yn *Llior* §53:3 a cf. *LiCol* § 32. Cyfyd rhagor o broblemau o’r term *g6arthech dyfach* gan i’r gair *dyfach* gael ei drin fel *di-fach* neu hyd yn oed *di-ach*. ‘[Y]ng ngoleuni’r adnod hon fel y ceir hi yma, credaf mai ansoddair berfol [...] yw *difach*, sef bôn y ferf *difeichiaf*, ac mai pwynt yr ymadrodd yw fod y gwarthech hynny’n eithriadol am fod meichiau drostynt, nid am nad oedd [...]. Os derbynnir y dehongliad hwn ar yr ymadrodd, bydd gofyn dilyn darlleniad llawysgrifau *O* a *Tr* yn LL.BLEG. [t.] 81.22, yn lle *L* fel yr awgrymir yn y nodyn ar dud. 208’; *LiCol*, t. 52. Cf. §§ 1745n., 1974.
- 376 Cf. § 1694.
- 379 **G6yl Vyhagel:** 29 Medi.
Yr Ystwyll: 6 Ionawr.
- 381 **os ymchoelut y tir a 6nant:** Y mae’r darlleniad hwn yn llawer eglurach na *LiBleg* § 67:3, *or ymchoelant y rei hynny*, a cf. y nodyn ar y darlleniad hwnnw yn *LiBleg*, t. 208.
- 390 **Pet6ar aghyfarch g6r:** Gw. Donald Howells, ‘The Four Exclusive Possessions of a Man’, *SC*, 8/9 (1973–74), 48–67.
- 393 **G6yl yr Holl Seint:** 1 Tachwedd.
G6yl Marthin: 11 Tachwedd.
- 401 **y gann yr abat a’r kanon6yr:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I* sy’n cytuno ag *S*) yw *y gan yr abat a’r offeireit*; cf. Lladin D, *ab abbate et presbiteris*.
- 403 **llys lle y bo eistedua brenhin:** Diwygiwyd y testun gwreiddiol, *llys lle ny bo eistedua brenin*, yng ngoleuni darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I* sy’n cytuno ag *S*) a’r cyd-destun (cf. § 406); cf. Lladin D, *in curia que sit sedes regis*, ynghyd â *LiBleg*, § 9:1.
- 404 **eu:** Anodd deall pam mai’r ffurf 3 lluosog ar y rhagenw blaen sydd yma yn hytrach na’r ffurf 3 unigol arferol, oni bai mai enghraifft arall o orgraff anwadal *S* yw hon; cf. *eu byrda*, § 1005.
- 405 **ne:** ‘neu’. Ar ddefnyddio *e* am /eu/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /eu/.
- 408 **oe vaes y:** Ai enghraifft o ‘orgywiro’ sydd yma? Er bod /oe, oi/ yn symleiddio’n /o, o:/ yn gyson yn nhafodiaith de Ceredigion, mae’r ddeusain wedi ei hysgrifennu’n gyflawn yn gyson yn y testun; gw. y drafodaeth ar orgraff a

- seinyddiaeth, dan /oe, oi/. Posibilrwydd arall yw dehongli *oe* fel yr arddodiad *o* + rhagenw mewnol 3 unigol 'e (diangen yn y cyd-destun).
- 414 Y mae'r adnod hon yn *I* ac *S* yn gywasgiad o ddwy yn y llsgrau eraill: *O gwatta neb adneu a rodho dyn yn y law y gadw, neu torr ty, rodet reith deudyblyc, megys y mae am veich kefyn neu pwn march. Teruynedic yw o pwn march o adneu, llw petwar gwyr ar hugeint; am veich kefyn, llw deg wyr; gw. LIBleg §§ 43:6–7.*
- 416 **Oyth:** 'Wyth'. Â'r ffurf, *oyth*, cf. *WML*, t. 65. Ar amrywio /oi/ ac /ui/ yn y testun hwn, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ui/.
- diatlam:** 'digartref, heb breswylfa neu drigfa'; *GPC*, t. 944. Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yw *estrona6l*, a cf. Lladin *D*, *extraneus*.
- 420 **y gestull:** Gw. Dafydd Jenkins, 'cestyll: castra: lluestau', *BBGC*, 22 (1967), 128–9.
- 427 *et seq.* Tynnir sylw yn *LIBleg*, t. 209, at y ffaith mai 'nodiadau sydd yma'; fodd bynnag ceir brawddegau cyflawn yn *I*, *S*.
- 434 **yn letrat:** Prin iawn yw'r enghreifftiau o *l* am /l/ ddechreuol yn y testun hwn; gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /l/.
- 449 Cf. § 2106.
- 455 **tystoliaet:** Ar ddefnyddio *t* am /θ/ yn y testun hwn, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /θ/.
- onyt vn o'r na6 vyd:** Sef un o'r *na6 nyn* [...] *a gredir y tystoliaeth* a nodir yn §§ 117–35. Yn *J*, *L*, *M*, *N*, *O*, *R*, *T*, *Tr*, *Bost*, *Llan*, y mae traethig Y Naw Nyn Credadwy yn dilyn y cyfeiriad hwn atynt.
- 460 Yn ôl y testunau eraill (ac eithrio *I*), dylai'r maer a'r cynghellor gael yn ogystal [*d*] *rayan yt y sawl a ffohont o'r wlat*. Y mae'n debygol i'r cymal hwn gael ei gollu o *I*, *S* trwy i lygad copiyydd cynsail iddynt lamu ymlaen o *yt* yn y cymal hwn at *yt* yn y cymal canlynol, *a thrayan yr yt a'r bwyt o pob marwty tayawc*.
- 464 **yr eida6 ehunan:** Defnyddir *eida6* fel arfer yn *S* fel y gwneir mewn Cymraeg Diweddar, sef fel enw yn golygu 'meddiant'. Yn yr enghraifft hon y mae *eida6* yn ei swyddogaeth wreiddiol, sef ffurf 3 unigol y rhagenw meddiannol, a ddefnyddir yma mewn ffordd enwol ac wedi dechrau magu'r ystyr o 'feddiant'; cf. eto yn § 1151, ac *eidi*, § 532. Gw. *GMW*, tt. 54–5.
- 468 Ymddengys fod yma enghraifft arall o 'lam llygad', gan fod gweddill testunau Bleg yn darllen, *Ny byd penkenedyl maer, hyt tra uo maer, ac ni cheiff eistedua dilis yn neuad y brenhin. Tri dyn a gynheil ef gantaw yg kyfedach yn neuad y brenhin; LIBleg §§ 45:10–11.*
- 472 **y cho6yll y verch:** Enghraifft o ddefnyddio rhagenw blaen gydag enw y mae enw genidol yn dibynnu arno; gw. *GMW*, t. 54, a cf. y nodyn a geir yno ag § 364n.
- 482 **Eebedi6:** Ar ddefnyddio *ee* am /e/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /e/.
- 487–553 Ar y traethig hwn yn gyffredinol, gw. Dafydd Jenkins a Morfydd E. Owen (gol.), *The Welsh Law of Women* (Cardiff, 1980).
- 498 **eidon kyhyt eu kyrn ac eu hyscyfarn:** Awgrymwyd mai gwartheg duon Cymru, blwydd oed, oedd y rhain; gw. J. G. T. Sheringham, 'Bullocks with Horns as Long as Their Ears', *BBGC*, 29 (1882), 691–708.
- 496 Y mae *Tim* yn rhoi mwy o fanylion na'r llsgrau eraill, ac y mae'n werth ei dyfynnu'n llawn yma: *Os t6yll vor6yn geffir heb bad, y chryus a dorir or ty racdi kyfy6ch a g6ar y chont ac or ty kefen kyfy6ch ae phedrein, a roder esgidieu ne6yd am y thraed a chroen edion k6ch am y thraed ac byneb y kic yn ychaf. A odynd y g6r a dyry ydi enderic kyhyd y glyst a gorn bedy yra6 y losg6rn a rodi yr enderic idi her6yd y losg6rn tr6y gelui r6ydrad ac or ty arall deu a d6y s6mbul yn brica6*

o deu ty. Ac os dycha6n hi y dala her6yd lo[s]g6rn kymered nny heg6edy (ff. 10). Yn groes i'r disgwyl, efallai, ymddengys nad ychwanegiadau diweddar mo'r manylion hyn, ond yn hytrach ffurf hynafol ar reol a gollodd ei symbolaeth yn raddol dros y canrifoedd; gw. Erik Anners a Dafydd Jenkins, 'A Swedish Borrowing from Welsh Medieval Law?', *CHC*, 1 (1960-63), 325-33. Rhaid wrth fwy o waith ar berthynas llsgrau Bleg â'i gilydd ac â llsgrau Cyfn cyn y gellir dechrau esbonio sut y cadwyd ffurf mor hynafol ar y rheol hon mewn llsgr. mor ddiweddar â *Tim*, ond gellir tynnu sylw at un ffaith ddiddorol yn y fan hon. Wrth gymharu fersiwn Cyfn ar y rheol â dau fersiwn o reol debyg yn llyfrau cyfraith Sweden, methodd Anners a Jenkins gael cyfatebiaeth Gymreig i 'newly-greased shoes' a 'newly greased new shoes' y fersiynau Swedaidd (t. 332). Y mae fersiwn *Tim* ar y rheol a'i gyfeiriad at *esgidieu nebyd am y thraed*, etc., yn mynd yn bell at wneud y gyfatebiaeth yn gyflawn. Ar y math o gosb trwy gywilyddio sy'n ymhlyg yn y rheolau hyn, gw. Nerys W. Patterson, 'Honour and Shame in Medieval Welsh Society: a Study of the Role of the Burlesque in the Welsh Laws', *SC*, 16/17 (1981-82), 73-103.

- 500 a'e cho6rsi, a'e penlliein:** Ei *phenlliein* yn unig a nodir yn y llsgrau eraill (ac eithrio *I* sy'n cytuno ag *S*). Gellid tybio bod *cowrsi* neu *cwrsi*, 'lliaian a wisgir yn orchudd am y pen, penwisg merch' (*GPC*, t. 649) yn gyfystyr â *penlliein*; gan hynny tybed onid ysgrifennwyd *co6rsi* yn gl6s ar *penlliein* mewn cysail i *I, S*, ac wedyn ei gorffori'n rhan o'r testun gan gopi6ydd diweddarach?
- 502 padell a talho keinha6c kyfreith:** Gwerth y badell yn ôl y llsgrau eraill (ac eithrio *I* sy'n cytuno ag *S*) oedd *keinha6c a dimei*, a cf. Lladin D, *patellam valentem iii obolos*.
- 503 a myneit o 6enith y 6neuthyr i6t:** Y mae'r llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yn rhoi *a charreit deu ychen o gynnud* ar ôl y cymal hwn.
- 504 6yra:** Ffurf amrywiol ar *6yry*, cf. *eira/eiry, dala/daly, hela/hely*. Am ddatblygiad y terfyniadau *-a, -y* o hen eiriau'n diweddu'n *-g*, gw. *GMW*, t. 10.
- 510 yr d6yn:** Amrywiad ar y geiryn rhagferfol *ry yw yr* yn y fan hon; gw. *GMW*, t. 169.
- 520-30** Gw. Robin Chapman Stacey, 'Divorce, Medieval Welsh Style', *Speculum*, 77 (2002), 1107-27.
- 522 dootrefyn:** 'dodrefn'. Dyma'r unig enghraifft o *oo* am /o/ yn *S*, ac y mae'n bosibl y dylid fod wedi diwygio'r ffurf yn y testun beirniadol. Gw. hefyd yr adran ar orgraff a seinyddiaeth, dan /o/.
- 526 kath:** Y mae'r llsgrau eraill yn gytûn mai un gath a gâi'r g6wr, a phe bai mwy nag un mai i'r wraig yr âi'r lleill, sef *ereill* y cymal dilynol; cf. Lladin D, *et unum catum; alii, si fuerint, mulieris erunt*.
- 533 d6y wraged:** Enghraifft o ddefnyddio ffurf luosog ar ôl rhifol; gw. *GMW*, t. 47.
- 534 6ric:** 'wreig' (wraig). Ar ddefnyddio *i* am /ei/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ei, eũ/.
- 543 y 6reic a dyly talu:** Y mae'r llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yn rhagflaenu hyn â'r amod, *ac or byd honheit y g6eithret*; cf. Lladin D, *sed si factum notum fuerit*.
- 547 Pedeir punt ar hugeint:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yw *pedeir punt ar dec*, a cf. Lladin D, *xiii libe*.
- 554-9** Gw. T. M. Charles-Edwards, 'The Seven Bishop-Houses of Dyfed', *BBGC*, 24 (1971), 247-62.
- 564 d6y eg6yt am yr vn troet:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yw *vn egwyt am yr vn troet*.

- 572 **reffet:** Ffurf gyfartal ar yr ansoddair *rhef*, ‘tew, trwchus, praff, mawr’; *GPC*, t. 3047. Darlleniad y llsgrau eraill yw *brasset*.
- 573 **gydkeu:** Ffurf luosog *g6dd6g*, ‘gwddf’. ‘Yn y Deau y ff. yw *gwddwg*, ll. *gyddge*, *gythce* [...]’; *GPC*, t. 1607.
- 579 **eidion voel:** Y mae’r treiglad yn annisgwyl, oni ellid ystyried y ffurf yn gyfansoddair llac; gw. *GMW*, t. 20.
- 581 **Hyn o petheu:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yw *Vn peth ar dec*, a cf. Lladin D, *undecim sunt*. Deg peth yn unig a restrir yn *I*, *S*—hepgorwyd *pedeir keinha6c pan dotter ieu gyntaf ar ych*; cf. § 654.
- asc6rn t6n vch kreuan:** Y mae *O*, *Tr* yn darllen *is creuan*. Yng ngoleuni *LIBleg* § 53:18, *vch kreuan* sy’n gywir, gan mai pedair ceiniog cyfraith oedd gwerth *ascwrn is creuan* (*LIBleg* § 53:19), a cf. Lladin D, *os fractum super creuan*.
- 582 **reith:** Gwall am *kynhen* yn ôl y llsgrau eraill, trwy gydweddiad ag § 583 o bosibl.
- 597 **morc:** ‘marc’, sef hen ddarn arian, a’i werth yn ddwy draean punt.
- 609 **llynueirch:** Mwy arferol yw *llyn meirch* neu *llyn y meirch*; ymddengys i’r copïydd dybio mai cyfansoddair sydd yma, a threiglo’r ail elfen yn feddal; gw. *GMW*, t. 15.
- 628 **o’e chyfloda6t:** ‘os bydd cyflo, oherwydd ei llo heb ei eni’. *I*, *S* yw’r unig llsgrau sy’n nodi hyn a hefyd yn rhoi iddi *d6y [geinha6c] o’r tymor*; cf. §§ 636, 660.
- 632 **dros y theithi:** Yn ôl § 640 yr oedd dwy ran i deithi cynflith, sef ei llaeth a’i llo; un geiniog ar bymtheg oedd gwerth y naill, a phedair ceiniog oedd gwerth y llall, gan wneud cyfanswm o ugain ceiniog am ei theithi’n gyfan. Gan y sonnir yma am godi *vn ar pymthec* [...] *ar y g6berth dros y theithi*, rhaid mai at ei llaeth yn unig y cyfeirir; cf. darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I*), *yd ach6anegir vn ar pymthec arnei, nyt amgen no gwerth y llaeth*.
- 636 **a d6y o’r tymor:** Yn *I*, *S* yn unig; cf. §§ 628n., 660.
- 643 **6yl Giric:** 16 Mehefin.
- 645–51 Y mae’r rhestr hon o’r tymhorau yn *I*, *S* wedi ei chyflwyno ar ffurf un frawddeg gryno yn y llsgrau eraill: *O hynny allan hyt y tryded vlwydyn, dwy geinhawc a drycheif arnaw o pob tymor*; *LIBleg* § 75:26.
- 660 **a d6y geinha6c o’r tymhor:** Yn *I*, *S* yn unig; cf. §§ 628n., 636n.
- 668 **[dros y kroen, wyth keinhawc]:** Ychwanegwyd y cymal hwn o *LIBleg* § 75:42, er mwyn cael pen y swm yn gywir.
- 675 **6yl Padric:** 17 Mawrth.
- 689 **6yl Ieuan y Moch:** 29 Awst.
- 709 *et seq.* Ar hela yn gyffredinol, gw. Dafydd Jenkins, ‘Hawk and Hound: Hunting in the Laws of Court’, yn Charles-Edwards, Owen a Russell (gol.), *The Welsh King and his Court*, tt. 255–80; *idem*, *Hunting and Husbandry in Medieval Welsh Law*, Hallstatt Lecture, 1993 (Machynlleth, 1993).
- 729 **neu 6reic:** ‘neu ei wraig’. ‘Llyncwyd’ y rhagenw gan ail elfen y ddeusain; cf. *neu sarhau*, § 1248; *neu haffeitheu*, §§ 1290, 1293.
- 731 **y kar6 y breyr:** Gw. § 364n.
- 740 **gyns6llt:** Ffurf ar ‘cynllwst’, trwy drawsosod */t/* ac */s/*. Cf. *ass6ell*, § 976n.
- 746 **milgi breyr:** Diwygiwyd y testun yng ngoleuni’r llsgrau eraill, a cf. § 741.
- 748 **oliet:** ‘oliaid’, sef ‘y rhai yn yr ôl, y rhai diwethaf’.
- 750 **bellach na6 kam:** Gollyngir *no[c]* yn aml ar ôl *bellach* mewn Cymraeg Canol; gw. *GMW*, t. 44. Cf. *bellach hynny*, § 2506.
- 751 **y gyfry6 gi:** Yng nghystrawen gysefin y (bannod) + *cyfryw* + enw, treigilir yr enw’n feddal, ond ni threigilir *cyfryw*. Trwy gydweddiad â chystrawennau megis *cymaint* a *cynifer*, sy’n debyg o ran cyfansoddiad ac ystyr, dechreuwyd treiglo

- cyfryw* yn feddal o gyfnod gweddol gynnar, a hynny o flaen enwau benywaidd a gwrywaidd fel ei gilydd; gw. *TC*, tt. 86–8.
- 753 **g6et:** ‘gwaed’; cf. *6et*, §1114. Braidd yn annisgwyl yw’r ffurf. Er bod /ae/ yn symleiddio’n /e/ yn y sillaf olaf ddiacen yn gyffredin yn nhafodiaith de Ceredigion, try /ae/ yn /a:/ mewn geiriau unsill; gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ae, ai, au/.
- 756 **[dynyon, or brath]:** Diwygiwyd y testun yng ngoleuni *LIBleg* § 50:20, ond cf. *WML*, t. 82.
- 758 **nythl6yt:** Cf. *tystoliaet*, § 455n.
- 775 **nen y ty:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yw *penn* y *ty*; cf. Lladin D, *tectum*.
- 776 **kynoreu:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *Q*, *Ep*, *P*, sy’n cytuno ag *S*) yw *amhinogeu*. Yn ôl *GPC*, tt. 91, 796, gall *amhinog* a *cynnor* ill dau olygu ystlysbost drws neu ran o ymylwaith drws, ac ni welais awgrym yn Iorwerth C. Peate, *The Welsh House* (Liverpool, 1944) fod gwahaniaeth ystyr rhwng y ddau derm.
- tubysteu:** Ffurf luosog ddwbl ar *tubost*, *tybyst*, ‘post ochr adeilad’; *GPC*, t. 3650.
- 781 **deudec keinha6c:** Ei gwerth yn ôl y llsgrau eraill oedd *deugeint*.
- 796 **pedeir ar hugeint:** Gwerth cigwain brenin yn ôl y llsgrau eraill (ac eithrio *I*, sy’n cytuno ag *S*) oedd *deudec keinhawc*, ond cf. Lladin D lle y nodir dau werth: *Lebes regis libram. Ficinula eius ii solidos. Caldarium x solidos. Ficinula eius i solidum*.
- 797 **6heugeint:** Darlleniad y llsgrau eraill yw *trugeint*, a cf. Lladin D, *Caldarium optimatis lx denarios*.
- deudec keinha6c:** Yn ôl y llsgrau eraill, *pedeir keinhawc kyfreith* oedd ei werth; cf. Lladin D, *Ficinula eius iiii denarios legales*. Deuddeg ceiniog yw ei werth yn *LIor*.
- 798 **gic6eint:** Os cywir awgrym *GPC*, t. 477, mai o ‘cig + ? gwain, elf. i’w chysylltu â bôn y f. *gwanaf: gwanu*’ y daw *cigwain*, wedyn anodd esbonio’r terfyniad *-t* yn y fan hon. Dichon ei bod yn ffurf a luniwyd ar gam trwy i lygad y copïydd naill ai grwydro’n ôl at y gair blaenorol, *hugeint*, neu ymlaen at y gair nesaf, *teir*.
- 800 **pedeir keinha6c kyfreith:** Ei werth yn ôl y llsgrau eraill (ac eithrio *I*) oedd *whesch cheinhawc*, ond cf. Lladin D, *Patella ferrea iiii denarios legales*.
- 806 **pedeir keinha6c kyfreith:** Ceir cryn amrywiaeth yn y llsgrau ynghylch gwerth *ta6lbord o pren*. Y mae *I* yn gytûn ag *S*, a cf. Lladin D, *de ligno iiii denarios legales*. Chwe cheiniog oedd ei gwerth yn ôl *Tim*, *Tr*, *Q*, *Ep*, *Llan*, ac wyth geiniog yn ôl *L*, *J*.
- 815 **Raff l6yf:** Diwygiwyd y testun yng ngoleuni’r llsgrau eraill, gan fod § 810 eisoes wedi gosod gwerth *raf vleb* yn *keinha6c kyfreith*.
- 825 **pedeir keinha6c kyfreith:** Yn ôl y llsgrau eraill, *whesch cheinhawc* oedd gwerth *ballecrwyt*, ond cf. Lladin D, *iiii denarios legales*.
- 845 **pedeir keinha6c kyfreith:** Yn ôl y llsgrau eraill, *whesch cheinhawc* oedd gwerth *pren arall ny dycco ffr6yth*, ond cf. Lladin D, *iiii denarii legales*.
- 861 Cf. § 1279.
- 862 Cf. § 1285.
- 863 **audyrda6t:** Prin iawn yw’r enghreifftiau o *au* am /au/ yn *S*, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /au/. Y mae’n bosibl bod dylanwad y Lladin, *auctoritas*, ar yr orgraff yn y fan hon. Gw. hefyd § 1321n.
- 865 **g6enyeithu:** ‘gwynieithiau’; ‘yr elfennau sacramentaidd’; *GPC*, t. 1777.

- 875** **roc:** ‘rhag’. Er bod enghreifftiau o *rocdaw*, *rocdi*, etc., yn weddol gyffredin yn y Cyfnod Canol, prinnach o lawer yw enghreifftiau o *roc* yn ffurf gysefin yr arddodiad; gw. *GMW*, t. 59. Ceir tair enghraifft arall o *roc* yn *S*, §§ 926, 1453 ac 1869.
- 882** **ym pop llys o dadleu:** Y mae blas cyfieithu ar yr ymadrodd hwn; cf. Lladin D, *in qualibet curia de placitis*.
- 900** **[yr] yr h6n:** ‘er yr hwn’; cf. darlleniad y llsgrau eraill, *o’r hwn*, a Lladin D, *in qua dignitas eius est ad iudicandum*.
- 910** **ywn y erbynn gwystyl y llall:** Er bod y gystrawen yn wahanol, cf. § 472n.
- 922** **deisif:** Diwygiwyd y darlleniad gwreiddiol er mwyn cyfateb i’r llsgrau eraill, a cf. Lladin D, *actio, et responsum, et petitio litigantum*.
- 953–5** Cf. §§ 994–9.
- 962** **g6edy y atdeb yr amdiffyn6r:** Nid ‘ar ôl’ (yn amseryddol) yw’r ystyr, ond ‘oherwydd, yn dilyn o’; enghraifft o gamgyfieithu’r Lladin, *propter responsis defendentis*.
- 964** **dynho:** 3 unigol presennol dibynnol y ferf *dyunaf*: *dyuno*, ‘cytuno, cydsynio’; *GPC*, t. 1150. Dichon mai gwall copïo sydd yma, am mai *vynho* sydd yn y llsgrau eraill; cf. Lladin D, *voluerit*.
- 972** Cf. § 2070.
- 976–81** Cf. §§ 2047–9.
- 976** **ass6ell:** Ffurf wallus ar *allwest* yw *asswell(t)*, a grewyd trwy drawsosod /t/ ac /s/; gw. *GPC*, t. 223. Ceir y ffurf safonol yn § 978. Digwydd *asswellt* bedair gwaith eto yn y testun (§§ 2047–8), a cf. *AL*, VC.I.xliii.5 (llsgr. *B*). Am enghraifft arall o drawsosod /t/ ac /s/ yn *S*, gw. *gynll6st*, § 740n.
- 978** **prid:** ‘preid’ (praid). Ar ddefnyddio *i* am /ei/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ei/ac /eæ/.
- 981** **pedeir keinha6c cota:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yw *pedeir keinha6c*; cf. Lladin D, *iiii denarios*.
- 985** Cf. § 2087.
- 987** Cf. §§ 2085–6.
- 988** Cf. § 2014.
- 989** **ta6lbort:** Darlleniad y llsgrau eraill (ac eithrio *I*) yw *galla6r*; cf. Lladin D, *caldario*.
- 993** Cf. § 1309.
- 994–9** Cf. §§ 953–5.
- 1001** **y na6d y brenhin:** Gw. § 472n.
- 1005** **eu 6yrda:** Cf. § 404n.
- 1013** Cf. § 2015.
- 1015** Cf. §§ 2022–4.
- 1024** **arall:** Hynny yw, gwraig arall. Cf. darlleniad y llsgrau eraill, *eil yw dwyn o’r gwr gwreic arall ar y phenn y’r ty*.
- 1049** Cf. § 2008.
- 1052** **amry6 dyllat y’r brenhin:** Y mae *amry6* wedi ei danddotio yn y llsgr., ac *amaerwyeu* mewn llaw ddiweddarach ar ymyl y ddalen. Darlleniad y llsgrau eraill yw *amaerwyeu y dillat y brenhin*.
- 1061** Cf. § 2094.
- 1062** Cf. § 1485.
- 1070–1** Cf. §§ 2003, 2184.
- 1072–3** Cf. §§ 2061–2.
- 1079** Cf. §§ 2040–3.

- 1092–5 Cf. §§ 2100–5.
- 1103 Cf. §§ 2089–90, 2431–2.
- 1104 **bra6t:** Diwygiwyd darlleniad y llsg., *braga6t*, yng ngoleuni darlleniad *L, J, M, Llan*, sef *brawt*, a cf. Lladin D, *iudicium*. Dichon mai gwall yw *braga6t* a awgrymwyd i ryw gopiyydd gan y cyd-destun (h.y. yn dilyn *ker6ynn ved*; cf., e.e., § 261).
- 1106 Cf. § 2057.
- 1113 Cf. §§ 2006–7, 2172–4.
wet: ‘waed’; cf. § 753n.
- 1146 Cf. § 1296.
- 1154–7 Cf. §§ 2467–72.
- 1197–9 Cf. §§ 1494–6.
- 1198 **G6ys rigill gan tyston ad6yn:** Rhaid cywiro darlleniad *LlBleg*, *Gwys righill a thystonn, a dwynn ynn y lle* [...]. Y mae’n amlwg o’r atalnodi ac o’r Nodiadau ar y testun, t. 178, i olygyddion *LlBleg* ddeall *a dwynn* fel dechrau cymal newydd. Fodd bynnag fel y gwelir o’r adnod hon yn *S*, ac o’i chymharu ag §§ 1202, 1495, ansoddair yw *ad6yn*. ‘Cymysgwyd *addfwyn* ac *addwyn* yn gynnar oherwydd eu tebygrwydd i’w gilydd’ (*GPC*, t. 32), a defnyddid *addfwyn* mewn cyd-destun cyfreithiol i olygu ‘digonol, dilys’; cf. Lladin D, *testibus ydoneis presentibus*.
- 1202 **neu Racuyr:** Darlleniad y llsgrau eraill yw *neu galan gayaf*.
- 1211–13 Cf. §§ 1393–5.
- 1219 Cf. §§ 1964–6n., 2091–3.
- 1226 Darlleniad y llsg. yw, *P6y bynnac a dalho lleidyr a lledrat yny la6 os adef talet seith punt gan y ell6g ohonna6 ae er cerenud ae er g6erth a chyt boet eneit vadeu y lleidyr nid eneit vadeu ef*. Golygwyd trefn yr adnod yn y testun beirniadol ar sail *Lllor* § 112:1 a *LlCol* § 361.
- 1229 **yn fflerna6r ac yn diaber6r:** ‘yn ffoadur ac yn gamataliwr’.
g6edy hynny drachefyn na6 kantref o gyfoeth yr argl6yd: Er bod *Q* yn cytuno ag *S*, y mae darlleniad *G* yn fwy rhesymol: *gwedy kerdet drachefyn na6 cam y kyuoeth yr argl6yd*. Digwydd pellter ‘naw cam’ mewn manau eraill yn y llyfrau cyfraith (cf. §§ 750, 1050), ond ni wn am yr un enghraifft arall o ‘naw cantref’. Dichon y dylid ystyried diwygio’r testun yn y fan hon felly.
- 1234–6 Ar y paragraff cyswllt hwn rhwng y testun *Bleg* a’r atodiad o ddeunydd ychwanegol (‘y gynffon’), gw. y Rhagymadrodd, t. xxi. Er bod peth deunydd ychwanegol wedi ei gynnwys eisoes, ac er bod un traethig cyfan o ddeunydd *Bleg* traddodiadol eto i ddod (sef yr Arferion Cyfraith), y mae’n briodol ystyried § 1234 fel adnod gyntaf y gynffon ar dri chyfrif: (i) daw ar ddechrau cydiad newydd yn y llawysgrif; (ii) y mae dull yr ysgrifen yn awgrymu cyfnod newydd o weithgarwch ar ran y copiyydd; (iii) o’r pwynt hwn y dechreu’r gyfatebiaeth fanwl â *Tim*; gw. y Rhagymadrodd, t. xliv *et seq.*
- 1236 **Dyfnwal:** Dyfnwal Moelmud; gw. §§ 1765n.
- 1237 **kyfreith gyffredin Gymry:** Mewn Cymraeg Canol treiglid yn feddal enw genidol ar ôl enw benywaidd unigol, felly *kyfreith Gymry*; gw. *GMW*, t. 14. Cedwir y treiglid yn y fan hon er bod ansoddair yn ymwithio rhwng y ddau enw, bron fel pe bai’r copiyydd yn ystyried *kyfreith gyffredin* yn enw cyfansawdd. Cf. §§ 1374, 1386 am enghreifftiau pellach o’r un gystrawen.
plas: ‘lle neilltuol neu benodedig’; *GPC*, t. 2819.
ynn lle arall: Gw. §§ 2197–9.

- 1239** **v'r:** 'i'r'. Digwydd *v'r* ac *u'r* am *i'r* nifer o weithiau o fewn y traethig hwn. Cf. *u* am *i*, § 1247; *u* am *y'i*, § 1247; *v* am *i'w* (neu *y?*), § 1251. Gw. hefyd y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /i, y, u/.
- 1243** **kanny:** *kynny* yw'r ystyr, fel y gwelir o § 1244; gw. § 154n.
- 1250** **o'r gyffry6 a dlyo:** Hynny yw, rhaid iddo dalu camlwrw. Cf. darlleniad *Q*, *Ep*, *Tim*, y *kyntaf a gosbir o gaml6r6 yny mod y d6esp6yd vry*.
- 1256** **y 6lad a'r gorsseda6c:** Darlleniad *Q*, *Ep*, *Tim* yw y *6lad a'r s6ydogyon*.
- 1257** **gorssed gyfreitha6l y brenhin:** Darlleniad *Q*, *Ep* yw *dadleu argl6yd*.
- 1266** **neu gwrthneu:** Cf. § 729n.
- 1272** **eu:** 'a'u'. Am gymysgu'r deuseiniaid hyn, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ae, ai, au/. Cf. § 48n.
- 1279** Cf. § 861.
- 1285** Cf. § 862.
- 1287–9** Cf. §§ 237–9.
- 1296** Cf. § 1146.
- 1299–301** Cf. §§ 1482–4, 2526–8.
- 1309** Cf. § 993.
- yr hynn y ossoded yghyfreith ida6 dros varnu:** Sef *pedeir keinha6c kyfreith yn ôl* § 883.
- hofynder:** 'ehofnder'; *GPC*, t. 1185.
- 1311** **g6yr a6dyr:** Ansoddair yw *a6dyr* yma, yn golygu 'awdurdodedig, dilys, grymus, galluog'; *GPC*, t. 239. At ddsbarthwyr y cyfeirir: gw. y Rhagymadrodd, tt. xviii–xxv.
- 1313** **bar6nieid euhyneint:** Dyma'r unig gyfeiriad yn *S* at *bar6nieid*. Darlleniad *Q*, *Ep* yw *brenhin ehunan*.
- 1314** **yn nydyeu y gyfreith a'e hoedeu:** Gw. § 1624 am restr o'r *amseroed* yn y *vl6ydyn ni ellir kynal kyfreith na dadleuoed yndynt her6yd kyfreith*.
- 1317** **g6ared:** 'symud ymaith [...], dileu'; *GPC*, t. 1582.
- 1321** **adyrda6d6yr:** Ar ddefnyddio /a/ am /au/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /au/. Ymddengys fod tuedd arbennig i hyn ddigwydd mewn tarddeiriau o'r Lladin *au(c)tor*: cf. *adyrda6d*, § 1382; *adyrdodys*, § 1767.
- 1322** **na g6yr o grefyd voynt nac egl6yss6yr erail:** Defnyddir y cysylltair *na ... na ...* yn y fan hon yn yr ystyr *ai ... ai ...* ('whether ... or ...'); gw. *GMW*, t. 232.
- tybyo:** 'drwgdybio, amheuo'; gw. *GPC*, t. 3669.
- 1325–6** Y mae darlleniad *Q*, *Ep* ychydig yn wahanol (ac mewn gwirionedd yn cynnwys pedwerydd tremyg, er nas rhestrir felly): *Eil dyall tremyc kyndrycha6l y6 rodi barn ar dyn my6n r6ym dadyl yn amperthyna6l kyn cadeiria6 dadyl. Trydyd tremyc kyndrycha6l y6 barn r6ym ar amdifffynbleit ky6lat g6edy cadeira6 dadyl y 6randa6 cof a barn sef y6 hynny yn ol deisyf o bob parth [...] neu rodi barn ar dyn yn ll6r6 collet neu enill kyn cadeira6 dadyl*. Cf. darlleniad *J* yn ogystal.
- 1327–30** Y mae *Q*, *Ep*, yn nodi trydydd tremyg absen (na welais mewn unrhyw lsg. arall): *Trydyd tremyc absen y6 rodi barn ar dyn heb y al6 or rigil yr lle y glybot y cof ar varn pan datkenit os yn agos y bei yno megis o vy6n plas yr orsed. Os ympell y bei y aros a dylr hyt pan bypper a aller y gaffel yn amsera6l megis bei rodit barn ar dyn o vy6n yr amser y dylir y aros y bybot a del yn amsera6l ar tremyc h6nn6 heuyt o anamserolder y dyellir*.
- 1331** **eu defnyd:** 'a'i defnydd'. Gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth am ddulliau'r copïydd o ddynodi'r deuseiniaid /ae, ai, au/.
- 1334** **ardel6o:** Darlleniad *J*, *Q*, *Ep* yw *ar6edo*.

- neu allu o'r atebwr ... ynn erbyn yr haflwr:** Y mae darlleniad *J, Q, Ep* ychydig yn eglurach nag eiddo *S: neu allu o atebwr kadarnhau perchennogaeth hyn o'e ansawd ehun a geisser y wneuthur yn gamweresgyn no'r honn a ardelwo hawlwr [...].*
- reded:** 'aredig'.
- 1336 meis:** Amrywiad ar *megis*; *GPC*, t. 2406.
- 1342–7** Cf. §§ 2448–54.
- 1343 py att:** Hen gystrawen lle y gosodid yr arddodiad yn syth ar ôl y rhagenw gofynnol; gw. *GMW*, t. 77.
- 1344 otha:** 'o'th dda'.
- hedyd:** 'hefyd'. Dyma'r unig enghraifft a nodwyd o ddefnyddio *d* am /v/ ac felly y mae'n bosibl mai gwall sydd yma'n hytrach nag amrywiad seinogol. Am enghreifftiau o *f* am /ð/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /v/.
- o by vn o'r tri:** Gw. § 350.
- 1347 pa vn o'r tri diebryd:** Gw. §§ 1162–5.
- 1350** Am drafodaeth ar arwyddocâd yr epithed *Dyfrwr*, ynghyd ag enghreifftiau eraill ohono mewn cysylltiad ag enw Dewi, gw. J. Vendryes, 'Saint David L'Aquatique', *Études Celtiques*, 7 (1955–56), 340–7.
- 1352 k[yff]elybyon vod[eu]:** Er mai anghyffredin iawn yw cael ffurf luosog yr ansoddair yn goleddfu enw unigol (ni nodir yr un enghraifft yn *GMW*), y mae *Tim, Ep* yn cytuno â'r darlleniad hwn.
- 1358 void:** 'fwyd'. Ar amrywio /oi/ ac /ui/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ui/.
- 1365 neu llithra6:** Dangosir y Treigladd Meddal yn gyson ar ôl *neu* fel arfer yn *S*, ond ceir un enghraifft arall o beidio â dangos treiglo /t/, sef *neu llo*, § 1759. Am enghreifftiau eraill o *ll* am /l/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /l/.
- 1379 Tri ch6yna6dyr kelys:** *Tri chamg6yn* yw darlleniad *Q, Ep*, sef yr unig destunau eraill y sylwyd arnynt sy'n cynnwys y darn hwn.
- 1388 ar y ch6eched:** Fel arfer yn y Cyfnod Canol defnyddid y gystrawen *ar* + rhagenw blaen + trefnol i olygu 'un o nifer arbennig', felly ystyr *ar y seithuet* fyddai 'un o saith' neu 'un gyda chwech arall' (gw. § 162n.). Fodd bynnag ceir enghreifftiau o'r gystrawen hon lle y dynoda 'un gyda'r rhif a gynrychiolir gan y trefnol' (gw. *GMW*, tt. 48–9), ac ymddengys mai dyna ystyr *ar y ch6eched* yn y fan hon er mai gyda rhifau o tua 20 i fyny y digwydd yr ail ystyr hwn fel arfer. Cadarnheir mai 'un gyda chwech arall' yw'r ystyr gan y ffaith bod §§ 159, 162, 164, 166, 1210, 1395 a 2321 i gyd yn cynnwys yr ymadrodd *ar y seithuet* yng nghyd-destun tyngu mechni neu ei wadu. Manylir ar y saith yn § 2321: *ped6ar g6yr o genedyl y dat, a deu o genedyl y vam, ac ef yhyndan seithuet*. Digwydd yr ymadrodd *ar ei seithuet* mewn cyd-destunau eraill yn ogystal (gw. §§ 1493, 1985, 1996, 2080), ond dyma'r unig enghraifft o'r ymadrodd *ar y ch6eched* yn *S* (mewn unrhyw gyd-destun).
- le u:** 'lle y'. Am enghreifftiau eraill o *l* am /t/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /t/. Un o'r ffurfiau lleiaf cyffredin ar y geiryn rhagferfol y yn y testun hwn yw *u*; cf. *lle u retto*, § 1406.
- 1393–5** Cf. §§ 1211–3.
- 1395 Eeil:** Ar ddefnyddio *eei* am /ei/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ei/.
- 1396 g6an:** 'gwahân'. Ar gywasgu /aha/ yn /a/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan 'Colli llafariaid'.

- 1398** **galleu:** 3 unigol amherffaith dibynnol y ferf *gallaf*: *gallu*. Digwydd sawl enghraifft o *-eu* am y terfyniad berfol *-ei* yn *S*; gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ei/.
- 1399** **pann y myno:** Ffurf lafarog ar y rhagenw gwrthrychol 3 unigol yw *y*; gw. *GMW*, tt. 55–6.
- 1404** **ar garn:** ‘ar ôl, ar gael’; *GPC*, t. 429.
6arnt: ‘warant’. Ar golli llafariad o sillaf ddiacen, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan ‘Colli llafariad’.
- 1407** **prothi:** ‘porthi’. Ceir sawl enghraifft o drawsosod llafariad yn *S*; cf. *pryffeith*, § 3; *kadranhao*, § 1785.
- 1408** **yn y vo:** ‘pan fo’. Enghraifft o ddefnyddio *yn y(d)* i gyflwyno cymal yn dynodi amser; gw. *GMW*, tt. 71–2. Y mae’r treigladd, *vo*, yn afreolaidd, o bosibl trwy gymysgu â chystrawen (*h*)yny ‘until’; gw. *GMW*, tt. 21, 244–5.
- 1415** Cf. §§ 2016–7.
- 1419** Cf. §§ 2350, 2445–6.
- 1420** Ceir fersiwn helaethach ar yr adnod hon yn *AL*, cyf. ii, V.i.9 (o *F*), sydd hefyd yn egluro’r termau *kledren baesaf6r*, *ass6yn6r* ac *adlam6r*. Gw. hefyd Eric P. Hamp a Patrick K. Ford, ‘Welsh *asswynaw* and Celtic Legal Idiom’, *BBGC*, 26 (1974–76), 147–60.
- 1442** Cf. §§ 2018, 2175.
- 1444** **rog:** ‘rhwng’. Ar y berthynas rhwng /o/ ac /u/ yn *S*, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /u/.
meu: ‘mai’.
- 1447** **barnu dadanhyd:** Darlleniad *Q*, *Ep yw barnu datkanu*, a cf. *AL*, ‘to adjudge and sum up’. Tybir mai darlleniad *S* sy’n fwyaf tebygol o fod yn gywir. Dengys § 359 nad oedd modd oedi achos o ddadannudd; yn wir, yr oedd natur dadannudd yn gyfryw fel nad oedd angen oedi, gan nad oedd yn derfynol mewn unrhyw ystyr. ‘Ni byddai cyngaws dadannudd yn penderfynu hawliau’r ddwyblaid yn llwyr, ac wedi i’r naill blaid ennill ei ddadannudd fe allai ddigwydd fod y llall yn profi ei hawl i’r tir drwy ach ac edryf’; *CH*, t. 51.
- 1448** **amrodo:** ‘[a] ymroddo’. Ar gymysgu rhwng /a/ ac /ə/ yn y sillaf ddiacen o flaen y goben, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /a/. Gw. hefyd § 90n.
- 1450** **Himp:** Ffurf amrywiol ar *imp*; *GPC*, t. 1867. /h/ acennol ydyw. Cf. §§ 1719n., 2448n.
- 1452** **keigeu:** ‘ceingiau’, ffurf amrywiol ar *ceinciau*.
- 1453** **gilydd:** ‘gilydd’. Ar ddefnyddio *ll* am /l/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /l/.
- 1455** **lyd:** 3 unigol presennol mynegol y ferf *lluddiaf*: *lluddias*.
- 1457** **batty:** Gw. Dafydd Jenkins, ‘abaty, albate, albadeth’, *BBGC*, 27 (1976–78), 216–21.
- 1460** **v:** Yr arddodiad *i*.
- 1465** **drydyd kabid6l kyfreitha6l:** ‘un o’r tri chabidwl cyfreithiol’. Ar y defnydd o’r trefnolyn, cf. § 162n. Am y ddau gabidwl arall, cf. *LLor* § 83:10, *Try gorsedauc esyd a allhant guneythur eu cabydul true eu keureyth ehun en lle na llesteyryoent kyureyth e brenhyn: sef ynt e rey henne, escop ac abbat a meystyr espytwyr*.
- 1466** **o vaes o’e sened:** ‘y tu allan i’w senedd’. Yr arddodiad *i* sydd fel arfer yn dilyn yr arddodiad cyfansawdd *o vaes*; gw. *GMW*, t. 201, a cf. § 942. Ai ffurf ar yr arddodiad *i* ynghyd â’r rhagenw mewnol 3 unigol yw *o’e* yn y fan hon? Cf. § 2157. Gw. *GMW*, tt. 53–4.

- 1469** **dreingk:** 3 unigol presennol mynegol y ferf *trengaf*: *trengi*, ‘darfod, diweddu, pallu’; *GPC*, t. 3578.
amreint: ‘coll neu dor braint, difreiniad’; *GPC*, t. 98.
- 1481** **klaf:** Darlleniad *Q*, *Ep*, *P*, *J* yw *caeth*. Cyfyngid yn sylweddol ar statws cyfreithiol cleifion a chaethion fel ei gilydd yng Nghyfraith Hywel, ond gan mai eiddo ei arglwydd oedd y caeth (ac o’r herwydd prin y byddid yn ei ystyried yn dyst posibl), ac ar sail adnodau megis §§ 935, 1845, derbynnir darlleniad *S* fel yr un sydd debycaf o fod yn gywir.
troyla6: ‘treulio’. Ar amrywio /eʊ/ ac /oi/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /eʊ/.
Y mae *Q*, *Ep*, *P* yn ychwanegu *lleidyr kyfadef*, *ysgymyn geir y en6* at y rhestr hon.
- 1482–4** Cf. §§ 1299–301, 2526–8.
- 1485** Cf. § 1062.
- 1487** **a g6nel:** ‘a’i gwnêl’.
- 1491** **ysgoleic:** Prin yw’r enghreifftiau o golli /h/ ar ddechrau sillaf acennog yn *S*; gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /h/.
- 1494–6** Cf. §§ 1197–9.
- 1495** **dyston adv6yn:** Gw. § 1198n.
- 1498** **neu 6en6yna6:** ‘neu ei wenwyno’.
- 1504** **pedeir ar dec a thrayan dimeu:** Darlleniad *Ep* yw *pedeir ar ddec a dimei a thrayan dimei*, ond rhaid gwrthod y ddimai ychwanegol hon ar sail dilyniad arithmetig yr adran.
- 1513** **tri ry6 6assanaeth yssyd ar dir:** Sef *llyd*, *a dadleu*, *a chymanva* yn ôl § 1461.
- 1514** **o 6erin ef:** ‘o’i werin ef’.
- 1517** **tri chyhoed:** Yn ôl § 1387, yr oedd y tri chyhoedd cyfraith fel a ganlyn: *vn y6 yghyhoed pl6yf*; *eil y6 ygorssed gyfreitha6l*; *trydyd yghyndrycholder argl6yd*.
- 1518** **dog:** ‘dwng’. Cf. *rog*, § 1444n.
- 1520** **neu gado:** ‘neu ei gadw’.
- 1523** **kyman:** Dichon na ddylid cyfystyru *kyman* a *chymanva* (gw. §§ 1461, 2510). ‘Cynulliad o bobl, cynulleidfa, cyfarfod; cynulliad o benaethiaid neu gynrychiolwyr, &c., i drafod a phenderfynu materion o bwys’ yw ystyr *cymanfa*; *GPC*, t. 754. ‘Llu, tyrfa, cynulliad, cwmni, cymdeithas; teulu, llu mewn brwydr; brwydr, cyfranc; coflys, math o lys cofnodion’ yw ystyr *cyman*; *GPC*, t. 754. Cf. fersiwn *WML* ar yr adnod hon: *Tri chyffredin gulat yssyd. lluyd a dadleu ac egl6ys. kanys guys auyd ar pa6b vdunt*.
- 1524** **yeu:** ‘eu’; ffurf ar y rhagenw blaen 3 lluosog. Am ddulliau’r copïydd o ddynodi /eʊ/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /eʊ/.
- 1525** **m6r:** ‘môr’.
- 1527** **prosses:** ‘(Holl weithrediadau) achos cyfreithiol, gwÿs’; *GPC*, t. 2910. Dyma’r enghraifft gynharaf a gofnodwyd o ddefnyddio’r gair yn yr ystyr hwn.
ynn gared yr argl6yd: Y mae ystyr *gared* yn ansicr. Cyfieithwyd yr ymadrodd yn *AL* fel ‘in the lord’s mercy’, gan ddeall y gair yn gyfystyr â *trugaredd*. Nid yw tybio mai *caredd* yw’r ffurf gysefin yn rhoi ystyr hawdd, gan mai ystyr arferol *caredd* yw ‘camwedd, pechod, trosedd, bai’ (*GPC*, t. 425) er y gall hefyd olygu ‘? trachwant, serch’. Posibilrwydd arall—a’r tebycaf o bosibl—yw ystyried mai gwall yw *gared* am *gorsed*.
- 1540** **y6:** ‘ei’; y rhagenw blaen 3 unigol gwrywaidd.
tri agen kyfreitha6l: Sef *agen am void neu diod neu da y daly y dyled*, yn ôl § 1358.
- 1541** **ettivedy:** ‘rhoi yn etifeddiaeth’.

- athoed:** ‘aethoedd’; 3 unigol gorberffaith mynegol y ferf *af: mynd*, ‘aethai’.
- 1557 **kaeth ... ida6:** Darlleniad *Q, Ep, J* yw *merch caeth* [...] *idi*.
- 1571 **ryderic:** ‘yn ei gwres (yn barhaus) (am anifail benyw)’; *GPC*, t. 3129.
- 1573 **gel6g:** ‘gellwng’. Ar ddefnyddio *l* am /h/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /h/.
- 1574 Ceir amrywiad ar y cwestiwn hwn yn *G: Pa dyn yssyd u6y gwerth y lygat noe eneit*.
- 1577 **nys tyly:** Cf. § 331n., a gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /d/.
- 1579 **ymyru:** ‘ymhél, [...] ymwthio (i sefyllfa, &c., yn enw. er mwyn ei newid); [...] delio, ymwneud, [...] bod ynglŷn (â), gweithredu’; *GPC*, t. 3812.
- 1582–3 Cf. § 1712.
- 1591 **kanys myn ehyn:** Awgryma’r cyd-destun mai *onis myn ef ei hun* yw’r ystyr. Os felly, y mae’n debygol mai enghraifft arall o gymysgu *kanys* a *kynys* sydd yma (gw. § 150n.), gan mai un o ystyron *kyn, kyd* yw ‘pe’. Gw. *GMW*, tt. 235–6.
- gyllid tir:** ‘treth tir’ neu ‘rent tir’. Am drafodaeth ar y term, gw. *LlCol*, t. 150. Dyma’r unig gyfeiriad at *gyllid tir* yn *S*.
- 1599 **ado:** ‘ymadael (â)’. ‘Tyfodd g- ar ddechrau’r [ferf *adawaf: adaw*] yn y 14g. tan ddyl. *gadael*, a rhoi *gadawaf: gadaw, -o*’; *GPC*, t. 13.
- val menyc trioed kyfreith:** Gw. §§ 1951–4.
- 1600 **ae:** ‘a’, y rhagenw perthynol. Cf. § 2109n.
- diasbad ych advan:** Nododd Dafydd Jenkins i’r ymadrodd hwn beri cryn anhawster i gopiwyr y llyfrau cyfraith; gw. *LlCol*, t. 147, lle y rhestra’r prif amrywiadau arno. At y rhai a nodwyd ganddo, gellir ychwanegu darlleniad *Q, ech ann6yn*. Trafododd Aled Rhys Wiliam ystyron posibl *dyaspat uuch Annuuen* (*AL*, ‘an outcry over the abyss’) yn *LlIor*, t. 120, ond heb nodi’r amrywiadau eraill ar yr ymadrodd. Ystyr *adfan* yw ‘ardal, bro, lle’ (*GPC*, t. 18), felly gall *diasbad ych advan* olygu’n syml, ‘gwaedd dros y fro’—sef y tir y mae’r priodur yn ei hawlio’n dir priod iddo ef ei hun; gw. hefyd §§ 1951–6.
- 1601 **chena6l:** ‘sianel’, o’r Lladin *canālis*; *GPC*, t. 414.
- 1603 **gado:** ‘gadw’.
- 1607 **amser dedva6l amdifin:** Darlleniad *Q, Ep* yw *amgen dedua6l amdifin*.
- 1617 **veel:** ‘fêl’. Ar ddefnyddio *ee* am /e:/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /e/.
- 1622 **onys brynant:** Camddarllenodd Aneurin Owen y testun yn y fan hon: *onysvynnant* sydd yn *AL*.
- 1627 **bryny:** Darlleniad *Q* yw *bridia6*. Y mae *prynu* wrth wraidd etymoleg a chyfraith *pridia6*; gw. *WLW*, t. 218.
- 1630 **anreith grybdeil:** ‘anrhaith trwy drais’; ‘“confiscation of a homicide’s property” (*GML*); literally, “despoiling by force”.’; *LlIor*, t. 125.
- 1638 **ny hanffo:** Llythyren a ychwanegwyd yn ddiweddarach yw’r *n* yn *ny*. Darlleniad *J, Tim* a *DamC* yw *yd hanffo*, ond y mae *Q* yn cytuno ag *S*, a dyna’n ddiâu y darlleniad cywir, fel y gwelir o § 1639.
- 1643 Cf. §§ 1924n., 2131–4, 2139.
- 1647 **i:** Ffurf ar y geiryn rhagferfol y.
- 1651–5 Y mae fersiwn *Q, Ep* ychydig yn wahanol: *Vn y6 g6neuthur bath. Eil y6 g6neuthur kyfreith. Trydyd y6 kynal breint Bagylogyon y deyrnas. Ped6ryd y6 cospi y neb a 6nel aghyfreith ar y prifyrd*.
- 1657 Cf. § 2180.
- 1661 **a’r heni:** ‘a’r rheini’. Ar ddefnyddio *e* am /ei/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /eə/.

- gofef:** ‘goddef’. Ar amrywio /v/ a /ð/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /v/.
- 1667 cholissi6n:** ‘cyd-ddealltwriaeth dichellgar’, benthyciad o’r Saesneg *collusion*; *GPC*, t. 544. Dyma’r unig enghraifft o’r gair a nodir yn *GPC*.
- 1668 tori:** ‘torri’i’.
- lleidir:** Darlleniad *G yw ll6u6r* (‘llwfr’), ond gellid tybio mai *lleidir* sy’n gywir, gan mai dim ond mewn perthynas â’i gyd-leidr y gwrandewid ar dystiolaeth lleidr yng Nghyfraith Hywel.
- kyhoededic:** Darlleniad *J, Q, Ep, Z yw kynefodic*. Anodd penderfynu rhwng y ddau: ni sylwais ar y term *lleidir kyhoededic* na *lleidir kynefodic* mewn unrhyw destun arall.
- 1671 bedeir keinha6c kyfreith:** Darlleniad *Tim yw deir ar dec*. Yn ôl § 1218, arferid crogi *lleidir da mar6a6l a dalhyer g6erth pedeir keinha6c kyfreith ganta6, neu a vo m6y*.
- 1673 g6byll:** ‘gwbl’. Ar ddefnyddio *ll* am /l/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /l/.
- 1678 gofed:** ‘goddef’. Cf. § 1661n., onid trawsosod cytseiniaid sy’n gyfrifol am y ffurf.
- 1694** Cf. § 376.
- 1695 g6ryd:** Mesur chwe throedfedd.
- 1704 a their troedved ym pob cam:** Darlleniad *WML yw a phump troetued ym pop kam*, ond rhaid mai gwall yw hwn (trwy gydweddiad â *pump kam* yn gynharach yn yr adnod, o bosibl—gw. testun *WML* am gadarnhad pellach). Y mae’r traethig am Gyfraith Dyfnwal Moelmud a Mesur yn gosod *teir troedved ynn y kam*, § 1771.
- 1712** Cf. §§ 1582–3.
- 1715–18** Cf. § 182–5.
- 1718 kanas:** ‘canys’.
- 1719 hel6:** Ffurf amrywiol ar *el6*; gw. *GPC*, t. 1208 a cf. §§ 1450n, 2448n.
- march a daleu punt:** Darlleniad *LLIor* § 62:12 yw *march a talho dec punt*. Y mae *J, Q, Ep, G* a *Tim* yn cytuno ag *S*, ac yn ôl y traethig ar Feirch, punt yw’r gwerth uchaf a roddir ar unrhyw farch, sef ar *am6s* (cadfarch neu ystaliwn); gw. § 596, a cf. *LLIor* § 121:4.
- 1723 mach a chynoc:** Gw. *LICol*, tt. 60–1 a cf. §§ 163–4n.
- 1724 dyn:** Hynny yw, *mach*, sef darlleniad y llsgrau eraill.
- 1726 vn o’r lleoed y ran kyfreith ynn deu hanner:** Nid yw hwn yn un o’r *tri lle y ran kyfreith yn deu hanher* yn ôl §§ 273–5, ond fe’i cynhwysir yn y fersiwn arall ar y triawd hwn yn §§ 2066–8.
- 1730 pan y6:** ‘mai’. Am ddatblygiad ystyr *pan*, gw. *GMW*, tt. 79–80. Gw. hefyd § 1742n.
- ni dylir erlid ... e6llys Du6:** Y mae enghraifft o ‘lam llygad’ yma; cf. *LLIor* § 64:6–7, *nat erlyt keureyth e byt un den, na nef yd el nac uffern, namen ene el y ar e daear. Sef achaus yu, ket boet keureyth erug den a’e gylyd ar e daear hon, nyt oes keureyth erug egyl a’u gylyd ac nyt oes keureyth erug dyauul a’u gylyd namen ewylles Duu*.
- 1738 e:** ‘ei’, ffurf anghyffredin ar y rhagenw blaen 3 unigol; y sydd fwyaf arferol yn *S*.
- 1740 ym vreint:** Fel arfer dangosir y Treigladd Trwynol mewn modd seinogol yn y testun hwn; gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan ‘Y Treigladd Trwynol’. Anodd deall pam y ceir cytsain feddal ar ôl *ym* yn hytrach na’r gytsain drwynol yn y fan hon, oni chamddarllenwyd *b* yn y gysail am *v* (ysgrifennid *b* a *v* yn debyg iawn i’w gilydd); cf. § 1742n.

- yth:** ‘ydd’, y rhagenw perthynol (o flaen cymal dan reolaeth arddodiad).
- 1742 vridu6:** Anodd deall pam y treiglwyd yn feddal yn y fan hon, ond gw. § 1740n.
- ta6:** ‘mai’. Y mae enghreifftiau o *ta6* yn anghyffredin iawn yn y Cyfnod Canol, a dyma’r unig enghraifft ohono yn *S*. Y ffurf arferol a ddefnyddir i gyflwyno cymal enwol yn y testun hwn yw *mae*, a cheir dynaid o enghreifftiau o *pan y6*; cf. § 1730n.
- 1745 divach ar na bo mach arna6:** Y mae holl ‘broblem’ y term *dyfach* fel pe’n cael ei chrisialu yma; gw. § 372n. Cyfeiria *Lllor* a’r testunau eraill at *pob da adeuedyc ny bo mach arnau*. Ymddengys i gopiyydd *S* ysgrifennu *divach* i gyfleu’r ymadrodd *ny bo mach arnau* (o bosibl mewn ymgais i ‘wella’ darlleniad ei gynsail), sylweddoli bod hyn yn amwys (gan y cymysgid rhwng *dyfach* a *di-fach*; gw. § 373n.), ac felly ychwanegu *ar na bo mach arna6* yn glòs ar *divach* er sicrhau bod yr ystyr yn berffaith eglur—a thrwy hynny greu ymadrodd adeiriog.
- 1746 kans ony 6adant ... veicheu:** Braidd yn dywyll yw’r ystyr; llawer eglurach yw *Lllor* § 66:4, *cany wadant hue e rody, ac vynteu en deleu bot en ueychyeu [...]*.
- 1750 anegydd:** Ffurf amrywiol ar *negydd*; *GPC*, t. 111.
- 1757** Cf. § 2217.
- 1759 neu llo:** Gw. § 1365n.
- 1763 g6eidred:** ‘gweithred’. Dyma’r unig enghraifft a nodwyd o ddefnyddio *d* am /θ/.
- 1765 Dyfyn6al Moelmyd:** Er bod yr enw *Dumngal Moilmut* yn digwydd yn yr achau brenhinol (llsgr. BL Harleian 3859), a bod lle i gredu i dywysog o’r enw hwn flodeuo yn yr Hen Ogledd c. 500 o.C., nid oes tystiolaeth bendant bod y traddodiad amdano fel y sawl a *ossodes gyfreitheu da yn yr ynys hon yn gyntaf* yn hŷn na *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy. Yn llsgrau dull Ior y ceir y cyfeiriad pendant cyntaf ato’n mesur Ynys Prydain. Ymddengys fod awdur traethig Ior yn gyfarwydd â gwaith Sieffre, ynghyd â mesuriadau Ynys Prydain fel y’u cadwyd yn yn y testun *Enweu Ynys Prydain*; gw. *TYP*, tt. 232–3. Am awgrym ynghylch ffynhonnell bosibl yr hyn a ddywed Sieffre am Dyfnwal, gw. Brynley F. Roberts, ‘Sylwadau ar Sieffre o Fynwy a’r “Historia Regum Britanniae”’, *Llên Cymru*, 12 (1973), 136–7. Gw. hefyd Morfydd E. Owen, ‘Royal Propaganda: Stories from the Law-texts’, yn Charles-Edwards, Owen a Russell (gol.), *The Welsh King and his Court*, tt. 229–32.
- 1766 6yur:** ‘ŵyr’. Am ddulliau eraill o ddynodi’r ddeusain /ʋi/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ʋi/.
- 1767 byrha6ys:** ‘barhaodd’. Ar amrywio /a/ ac /ə/ mewn sillafau diacen, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /a/.
- 1769 Benryn Blathaon ... yGherni6:** Tynnwyd sylw yn y Rhagymadrodd, t. xlvi, at ddaearyddiaeth wallus *S* a *Tim* fel ei gilydd yn yr adnod hon. Yn ôl Rachel Bromwich, y mae’n eithaf diogel bod *Penryn Pengbaed* yn cyfeirio at Penwith Point rhwng Land’s End a Mousehole yng Nghernyw, ond ni ellir lleoli *Penryn Blathaon* gyda’r un sicrwydd. ‘It is uncertain which of the northern extremities of Scotland is here intended: probably John o’Groats or Dunnet Head in Caithness’; *TYP*, tt. 233–4. Fodd bynnag, yn ‘Pen Penwaedd a Phentir Gafran’, *LIC*, 13 (1980–81), 278–81, dadleuodd Brynley F. Roberts mai enw ar Land’s End yw *Penryn Pengbaed*. Gw. hefyd Iwan Wmffre, ‘Penrhyn *Blathaon* ac Amgyffred yr Hen Gymry o Eithafion Gogledd Prydain’, *SC*, 38 (2004), 59–68.
- Grygyl yMon:** ‘The *Afon Crigyll* flows into the sea near Rhosneigr on the west coast of Anglesey, and gives its name to *Traeth Crigyll*. The reason for the choice of this place as that from which to take the north-westernmost measurement of

Britain is obscure, since one would expect this to be taken from the extreme point of *Caergybi* (Holyhead)'; *TYP*, tt. 234–5.

Soran yglann Mor Yd: Y ffurf yn y testunau eraill yw *Soram*. 'The place referred to is *Sarre*, opposite the Island of Thanet in Kent [...]. [Robert Vaughan] identifies *Soram* with the Kentish river *Stowre*, which divides Thanet from the mainland, but *Sarre* suits better both with the context and the form of the name [...] *Mor Udd* means the North Sea, but it apparently included the English Channel [...]. The distance here given of 500 miles from Anglesey to *Sarre* is very far from the actual measurement—Holyhead to Maidstone is only 296 miles'; *TYP*, t. 235.

- 1775** **tyfyn:** 'tyddyn'. Ar amrywio /v/ a /ð/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /v/
- 1779–80** Tynnwyd sylw yn y Rhagymadrodd, t. xlvi, at fathemateg wallus yr adran hon yn *S* a *Tim*. Adluniwyd yma'r dilyniad arithmetig a ddylai nodweddu'r darn, ac a gedwir yn gywir yn Ior, ffynhonnell y traethig hwn. Diddorol sylwi bod *J*, *Ep* hwythau'n methu wrth roi *deudeng mil a deucant* fel cyfanswm nifer yr erwau yn y cwmwd.
- 1783** **eythyf:** Cymerir mai 1 unigol perffaith mynegol y ferf *af:* *mynd* sydd yma, sef *athwyf/ ethwyf*, a cf. darlleniad *Tim*, *deithyf*. Ffurf 1 unigol gorffennol mynegol y ferf sydd yn *J*, *Ep*, sef *eithum*. Gw. *GMW*, tt. 132, 134.
- 1785** **kadranhao:** 'cadarnhao'. Ar drawsosod cytseiniaid, cf. *prothi*, § 1407n.
- 1797** **grod:** Darlleniad *Q*, *Ep*, *J*, *Tim* yw *keinia6c*.
- 1800–6** Y mae'n amlwg bod y traethig hwn yn ddiffygiol, ond nid yw'n gwbl glir ym mha le y gorwedd y broblem—neu broblemau. Y mae yma ddau brif anhawster:
- a) Er bod § 1800 yn addo rhestru *Ped6ar peth ar pymthec*, dau beth ar bymtheg yn unig a restrir yn amlwg: § 1801, *Tri ...*; § 1802, *Deu ...*; § 1803, *Pymp ...*; § 1804, *A seith ...*. Dichon mai'r cyfan sydd ei angen i gywiro'r arithmetig yw diwygio § 1801, *Tri a berthyn y'r gorssoda6c ...* i *Pymp a berthyn y'r gorssoda6c ...* gan y rhestrir pum elfen yn ail hanner y frawddeg er eu bod yn ymrannu'n dri chymal. Fodd bynnag, fel y nodir yn b) isod, nid yw §§ 1804–5 yn rhedeg ymlaen yn esmwyth, ac nid yw'n amhosibl felly bod y 'ddau beth' sydd eu hangen i wneud pen y swm yn gywir wedi eu colli rhwng §§ 1804 ac 1805.
- b) Tynnodd Aneurin Owen sylw yn *AL*, cyf. ii, t. 419, at y ffaith nad yw § 1805 yn rhedeg ymlaen yn esmwyth o § 1804, ond ni cheisiodd daflu unrhyw oleuni ar y broblem. *Tim* yw'r unig destun arall sy'n cynnwys y traethig dan sylw, a chan fod *Tim* yn cyfateb yn agos iawn i *S* yn y fan hon, ni cheir unrhyw gymorth o'r cyfeiriad hwnnw ychwaith. Fel y nodwyd yn a) uchod, y mae'n bosibl mai'r rheswm pam nad yw'r adnodau hyn yn rhedeg ymlaen yn gwbl esmwyth yw oherwydd bod 'dau beth' wedi eu colli o'r testun. Fodd bynnag, os cywir yr awgrym uchod y dylid diwygio *Tri* ar ddechrau § 1801 i *Pymp*, rhaid chwilio am esboniad arall. Tybed onid y cwbl sydd ei angen wedyn yw trawsosod §§ 1804 ac 1805, gan roi dilyniant llawer mwy synhwyrol i'r rhan hon o'r traethig: [...] *Pymp peth yssyd reid y amdiffyn6r y gaffel kyn kollo: g6ys, ha6l, barn, a thygnodef y dyfod y'r llys. Ac o llythra amser ynn erbyn g6ystyl, o dervyd y'r amdiffyn6r [vn] o'r pygkeu hynn, reid y6 kymryd tervyn amdana6. A seith gynedef bra6d6r.*
- 1804** **seith gynedef bra6d6r:** Ni fanylir ar y rhain yn *S*, ond yn ôl *Q*, *Seith kenedef kyfreitha6l a dily bot ar enat, sef y6 hynny mut, a bydar, vuyd, ac ofyna6c, drut, a llauar, a goleitha6c. A llyna gyghoreu a dily vot ar dyn a dechreuo kyfreith* (ff. 53v).

- 1807–13** Dilyna'r traethig hwn yn naturiol o'r cyfeiriad at *seith gynedef bra6d6r* yn y traethig blaenorol (sef adnod olaf y traethig os derbynnir awgrym §§ 1800–6n.). Cadwyd llawer o enghreifftiau o fotiff 'Allweddau Doethineb' yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol; gw. Hywel D. Emanuel, 'The Seven Keys of Wisdom: A Study in Christian Humanism', *SC*, 5 (1970), 36–47, lle yr ymdrinnir yn arbennig â'r traethig *Septem Claves Sapientie* yn Lladin B. Ceir nifer o fersiynau Cymraeg ar y motiff hwn yn y llyfrau cyfraith, ond y maent i gyd yn amrywio o ran eu cynllun rhifyddol a'u cynnwys oddi wrth y fersiwn Lladin a hefyd oddi wrth ei gilydd. Saith allwedd sydd yn fersiwn Lladin B, *Interrogare humiliter; audire diligenter; tenere memoriter; credere fideliter; diligere ardentem; narrare humiliter; iudicare misericorditer*. Pum allwedd sydd yn *Z* a *WML*, a *pum clo* yn *Q*. Er bod pob un o'r testunau hyn yn gwahaniaethu ryw gymaint oddi wrth ei gilydd o ran y manylion, rhannant yr un egwyddorion sylfaenol, sef caru ac ofni Duw a'r athro; holi'n ddiwyd a chadw dysg ar gof; casáu anghyfiawnder; a thremygu'r oes. Yr un egwyddorion yn union a nodir dan y pennawd *Pedeir allbed egnedaeth* yn *S* a *Tim*. Gw. hefyd Gwenno Angharad Elias, 'Llyfyr Cynyr ap Cadwgan', Pamffledi Cyfraith Hywel (Aberystwyth, 2006), t. 6. Cf. §§ 2479–86.
- 1814–21** Cf. § 2531.
- 1825** **y perchen:** Dengys y testunau eraill mai *perchen* y *reith* a olygir.
- 1829** **diodor:** 'di-dor, di-rwysr, diatal; diohir, di-oed'; *GPC*, t. 1023.
- hen, a heint gor6ida6c:** Darlleniad *J, Q, Ep, G, As* yw *angeu, a heint, neu glefyt gorweidyawc*. Ystyr arferol *gorweiddiog* yw 'yn gorwedd ar wely cystudd, claf, yn ei wely, yn cadw'r gwely', ond pan y'i defnyddir wrth ddisgrifio afiechyd y mae iddo ystyr weithredol, 'yn caethiwo'r claf i'w wely'; *GPC*, t. 1506.
- hydrym:** 'rhydd, hygyrch, diogel; [...] cryf, cadarn'; *GPC*, t. 1955.
- a'hy ettyl:** Ceir anadliad caled o flaen ffurfiau'r ferf sy'n dechrau â llafariad ar ôl y rhagenw gwrthrychol 3 unigol, ond 'camleolwyd' yr anadliad yn yr enghraifft hon; gw. *GMW*, tt. 22–3.
- 1831** **eillt brenhin neu vreur:** Darlleniad *Q* yw *mab mab eillt brenhin neu vreyr*, mewn ymgais, y mae'n debyg, i egluro nad unrhyw *eillt* a olygir, ond yn hytrach *eillt prioda6l*, sef aillt o'r bedwaredd genhedlaeth fel yr â'r adnod ymlaen i egluro; ond wrth wneud hyn collodd *Q* genhedlaeth, gan mai'r drydedd genhedlaeth yn unig fyddai *mab mab eillt*.
- 1833** **pynn damch6einou:** Cf. § 1832, *pann damch6eino*. Er y nodwyd nifer o enghreifftiau o /a/ ac /ə/ yn amrywio (gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /a/), mewn sillafau diacen y digwydd hyn fel arfer. Y mae'n bosibl bod *pynn* wedi ei ffurfio o dan ddylanwad cystrawen arall, cf. *Q, yny dam6eino*. Dyma'r unig enghraifft o'r terfyniad berfol *-ou* yn *S*; ar sail y ferf gyfatebol yn § 1832, tybir mai 3 unigol presennol dibynnol ydyw, 'damchweino'.
- 1836** **absen:** Y mae'r ansoddair yn goleddfu *Tri dyn*, nid *tafodya6c*.
- o rif neu yfyllda6d:** Tanddotiwyd *rif* yn y testun, a cheir nodyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach yn awgrymu y dylid darllen *reid* ar sail § 1843, *reid neu yfyllda6d*, darlleniad a gadarnheir yn § 1843 gan *Q*. Fodd bynnag, dichon nad oes angen diwygio'r adnod hon o gwbl. Digwydd *gwr rhif* yn gyffredin yn y Cyfnod Canol yn yr ystyr 'man enrolled for military service, enlisted soldier'; *GPC*, t. 1695. Cf. y ferf *rhifaf*: *rhifo* yn yr ystyr 'listio, mwstrio'; *GPC*, t. 3070. Ystyr *o rif* wedyn fyddai 'by conscription, by enlistment'. Ystyr *yfyllda6d* yw 'gostyngeddwrwydd', o'r Lladin *humilitāt-* (*GPC*, t. 3700), ond fel *ufudd-dod* gallai hefyd olygu 'yn gwneud ei ddyletswydd, teyrngarwch' (*GPC*, t. 3699, a cf.

Ifor Williams (gol.), *Chwedlau Odo* (Caerdydd, 1957), t. 29). Ymddengys felly fod yr ymadrodd *o rif neu yfyllda6d* yn cyfleu gweddau cyferbyniol ar wasanaethu *mewn llyd argl6yd*, sef ‘ trwy orfodaeth filwrol, neu fel gwirfoddolwr (fel rhan o wasanaeth tir)’.

- 1837 yn ll6r6 yr amdifffynbleid:** Darlleniad *Ep* yw *yn lla6 yr amdyffynbleit*.
- 1841 odieuthur g6yr y vaerdref:** Ymddengys fod yma enghraifft o ‘lam llygad’ gan fod y geiriau hyn yn perthyn i’r adnod nesaf (nas ceir yma) yn ôl fersiwn *LIIor* ar yr adran hon: *En e wlat ehun ryd uyd ydau pan uenho. Paub a dele guneythur gueyth kestyll e brenhyn pan uenho, eythyr guyr e uaertref*.
- 1843 yn gymen:** Darlleniad *Q*, *Ep* yw *yn digynen*.
- 1844 kymedi6eu:** Ffurf amrywiol ar *cymynediwau*, trwy gywasgiad. ‘Communion’ yw’r ystyr yn ôl *AL*, ond cywirach efallai fyddai deall y gair i olygu ordinhadau’r eglwys yn gyffredinol yn hytrach nag un ohonynt yn neilltuol; gw. *GPC*, t. 774.
- gynylloryaeth:** ‘cyngelloriaeth’; dyma’r unig enghraifft a nodwyd o ddefnyddio *n* am /ŋ/; gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ŋ/.
- du6a6l:** Darlleniad *Q*, *Ep* yw *dedua6l*, ond diau bod darlleniad *S* yn rhagori.
- 1848 gyfyn:** ‘cytûn, unfryd’.
- 1852 efryd:** ‘efrydd’; cloff.
- 1855 pryderu:** ‘Gofalu (am), bod yn gyfrifol (am)’; *GPC*, t. 2916. Cf. § 65n.
- 1858 tri llyfyr:** Cf. § 6.
- 1862 yl6ya6:** Ffurf ar y ferf *alowiaf*: *alowio*, ‘caniatáu’; gw. *GPC*, t. 76 (y mae’r enghraifft hon yn gynharach na’r un a ddyfynnir yno).
- 1868 seith ragor:** Y mae rhestr *Q*, *Ep* yn nodi *offr6m* yn lle *priodas*.
- trais goleu:** Trais a wneir liw dydd golau.
- 1878 teil6g:** Darlleniad *Q*, *Ep* yw *teuluab6c*.
- 1889 Byched y Tadeu:** Ni wyddys bellach am yr un testun Cymraeg Canol yn dwyn y teitl *Buchedd y Tadau*, ac nid oes rhaid rhagdybio y bu’r cyfryw destun gynt ychwaith, gan fod yr adran hon (§§ 1888–92) i’w holrhain yn ei chrynswith i’r *Collectio Canonum Hibernensis*, Lib. XXX. Cap. 2(a), 3(b), 5(e, f). Sonnir yn y *Collectio*, Lib. XXX. Cap. 3(b) am *vitis patrum Egypti*, ac y mae’n bosibl mai at gompendiwm Sant Sierôm o fucheddau’r tadau eglwysig y cyfeirir—er na lwyddais i leoli’r hanesyn hwn yn y testun hwnnw ychwaith. Nid oes rhaid tybio bod cynullydd gwreiddiol yr adran hon yn gyfarwydd â gwaith Sierôm, dim ond â’r hanesyn cofiadwy hwn a’i ffynhonnell dybiedig. Gw. yn ogystal Du Cange, *Glossarium Mediae et Infimae Latinitatis*, cyf. 8, t. 359. Am ragor o ddeunydd yn *S* sy’n deillio o’r *Collectio*, gw. § 170n.
- 1892 ty g6edie ... ty ladron:** Cf. Mathew 21:13 a Luc 19:46 yn y Testament Newydd.
- 1901 klaf g6an:** ‘claf gwahanglwyfus’. Cf. § 1396n.
- yn vra6d6r ... ynn vra6d6r:** Darlleniad *G* yw *yn prioda6r* [...] *yn prioda6r*.
- 1910 obligassion:** ‘rhwymedigaeth, cytundeb’. Dyma’r enghraifft gynharaf o’r ffurf a gofnodwyd yn *GPC*, t. 2612.
- 1912 rossoed:** 3 unigol gorberffaith mynegol y ferf *rhoddaf*: *rhoddi*; gw. *GMW*, t. 155.
- 1914 De6i Breui, et cetera:** Camddarllenodd Aneurin Owen y llythrennau *t.c.* am *I.C.*, a dyna a argraffwyd ar ddiwedd yr adnod hon yn *AL*.
- 1916 latheu:** Darlleniad *Q*, *Ep*, *DamC* yw *uacheu*. Y mae’n bosibl bod darlleniad *S* yn ganlyniad camddarllen *uacheu* mewn cynsail.
- 1919 aghyfarch:** Darlleniad *Q*, *Ep*, *DamC* yw *agkyfreith*.
- 1924 dyn med6:** Darlleniad *Q*, *Ep* yw *dyn ynuyt*, o bosibl trwy gydweddiad â’r tair adnod flaenorol, ond mewn fersiwn arall o’r un adnod yn *Q*, *Ep* (gw. Consbectws

- 2) ceir *med6*. Y mae §§ 1643, 2131–4, 2139 yn cadarnhau mai *med6* yw'r darlleniad cywir.
- 1925–6** Y cyntaf yn unig o'r *Tri lle* a drafodir. Gan na wyddys am enghraifft arall o'r triawd hwn, amhosibl yw adlunio'i ddau gymal olaf, ond cf. §§ 1174–7.
- 1927** **taled pedeir bu a phed6ar ygeint o ariant ida6:** Er bod y testunau Cymraeg eraill yn cytuno ag *S*, cf. darlleniad Lladin A, *non habet nisi tres vaccas et tres uncias argenti*. Y mae'r ddau werth hyn yn bosibl fel mesur sarhaed dynion neilltuol, cf. §§ 223, 225, 252, 253; fodd bynnag o gofio bod perthynas reolaidd rhwng mesur sarhaed dyn a'i alanas (cf. §§ 219–28), yng ngoleuni §1928 rhaid tybio mai *teir bu a thri ygeint o ariant* a ddylai fod yn y testunau Cymraeg hwythau yn y fan hon.
- 1930–1** Tynnodd T. M. Charles-Edwards gymhariaeth rhwng yr adran hon (ynghyd â'r fersiwn yn Lladin B (*LTWL*, tt. 248–9; a cf. hefyd Lladin E, *LTWL*, t. 298) a'r traethig ar 'Saith Esgobty Dyfed' (§§ 554–9). 'First, if one takes those places common to both lists which can be identified with some probability, they all belong to the *cantref* of Penfro. The section, therefore, is probably a local Dyfed document copied into later lawbooks because of its antiquarian interest. It very likely dates from before the Norman conquest of Penfro, and the *prepositus* may perhaps be seen as the king's official in charge of Penfro. Its local background, therefore, its probable early date, and its mention of *lavatrix* or *golchydes* demonstrate its connections with the section on the bishop-houses'; 'The Seven Bishop-Houses of Dyfed', 262.
- 1930** **h6e bu a thrigeint mu:** Darlleniad Lladin B a Lladin E yw *vi vacce et sexies xx*. **ynn yr holl vyd:** Y mae Lladin B a Lladin E yn nodi mai *in galanas prepositorum tocius Demetie* y telir hynny. Y mae'n bosibl bod darlleniad *S* yn ganlyniad camgopïo (*ynn holl Dyvyd*, neu ryw ffurf debyg?), neu ynteu'n ymateb ymwybodol gan y copiyydd (neu un o'i ragflaenwyr) yn erbyn y gwerth afresymol o uchel a roddir ar alanas *prepositus Castell Arcoyl* yn Lladin B; gw. Charles-Edwards, 'The Seven Bishop-Houses of Dyfed', t. 262.
- 1935** **Be sa6l:** Y ffurf ofynnol arferol yw *pa sa6l* neu *py sa6l*, ac y mae'n bosibl nad yw *be* ond yn ffurf orgraffyddol ar *pa / py*; cf. § 2024 lle y ceir *be* am *pe*. Y mae rhestr *S* ychydig yn wahanol i eiddo *Q*, *Ep*, *G*, a cf. hefyd Lladin B a Lladin E. Nodir tri phrif wahaniaeth yma: (i) nid yw *S* yn cynnwys *na6 penvarch brenhin*—ond dichon i'r copiyydd hepgor hyn yn fwriadol gan nad oes ond sôn am *oyth pynuarch* yn *S* (§§ 416, 2546); (ii) y mae'r rhestr o'r *na6 kynybedy teithia6c* yn amrywio ym mhob un o'r testunau a ystyriwyd. Y maent oll yn gytûn ar *priodas*, *agbedi*, *karadas* a *t6yllvor6yn*, ond ceir amrywiaeth o ran y lleill: Lladin B (a Lladin E), *duo privigni, et ladrut twill, beichodi* [sic] *twyll, mulieris lluyt et perth, nau affeith kennewedi ar lu ac aruoll*; *Q*, *Ep*, *G*, *deu lysuab llathlut, llathlut goleu, llathlut t6yll, beichogi t6yll r6ng ll6yn a fferth, kynebedi ar li6 ac ar olei*. Am drafodaeth lawn, gw. T. M. Charles-Edwards, 'Nau Kynywedi Teithiauc', *WLW*, tt. 23–39; (iii) *S* yw'r unig destun Cymraeg i gynnwys *na6 g6ryd*: ceir *na6 cam*, *na6 kufyt* yn ei le yn *Q*, *Ep*, *G*, ond *Nau cam. Nau gurhit* yn Lladin B a Lladin E.
- 1936** Cyflenwyd y testun ar sail Lladin B a Lladin E, sy'n ei gwneud yn glir bod y chweched a restrir, sef y *chobyll*, yn perthyn mewn gwirionedd i ferch (h.y. cyn iddi ddod yn wraig briod): *sextum puellae: scilicet, cowyl*. Cf. yn ogystal § 2188 lle y ceir fersiwn arall ar yr adnod hon, ar sail *Llor* § 51:1.
- 1937** **haner g6erth y lla6:** Yn ôl §§ 187–8, gwerth llaw dyn oedd *6he bu a 6he vgeint o ariant*, felly y mae'r adnod hon yn gosod gwerth torri bawd yn dair bu a

- thrigain o arian. Yn ôl § 191, fodd bynnag, *Y uab*, *dby uu a deu vgeint aryant a dal*.
- 1938** **ae ... ae:** ‘ai ei ... ai ei’.
- 1951** **Teir diasbad y6ch advan:** Gw. § 1600n.
- 1959** **ni ch[yg]lein:** 3 unigol presennol mynegol y ferf *cyngannaf*: *cyngenni*, ‘cydweddu, bod yn addas neu’n gymwys, gweddu [...]’; bod yn ganiataëdig’; *GPC*, t. 735. Gw. hefyd Ifor Williams (gol), *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, adarg. 1964), t. 281.
- 1961** Cf. §§ 2064 a 2190.
- 1963** **myrna6:** ‘murno’; ‘llofruddio (yn ddirgel), bradlofruddio; niweidio’; *GPC*, t. 2504.
- 1964–6** Cf. § 1219, lle y ceir fersiwn cwbl wahanol o’r triawd hwn, ac §§ 2091–3 lle y ceir fersiwn estynedig ohono.
- 1971** **vn o dri dygynngoll kenedyl:** Cf. § 2185. Gw. hefyd §§ 69–71, 2000–2.
- 1974** **varthec [di]vach:** Gw. § 1745n.
- 1984** **trydyd kymeriad y6 ar vab:** Er na nodir y ddau ‘gymeriad’ arall mewn triawd taclus, gellir casglu mai ei ‘ddioddef’ (neu beidio â’i wadu) gan y tad yw’r naill, gw. §§ 1978–80, a’i dderbyn i’r genedl (naill ai gan y tad ei hun neu gan gynrychiolwyr o’r genedl) yw’r llall, gw. §§ 1995–8. Gw. hefyd. *DamC* §§ 152–4.
- 1985–7** Cf. §§ 1995–9, 2079–83.
- 1990** **gna6daf:** Gradd eithaf yr ansoddair *gnawd*, ‘arferol, cynefin, cyfarwydd, hysbys’; *GPC*, t. 1415. Y ffurf ddisgwyliedig yw *gnotaf*; cf. *Llor a J*, a gw. hefyd ffurf y radd gymharol, *gnodach*, *GMW*, t. 39.
- 1995–9** Cf. §§ 1985–7, 2079–83.
- 2000–117, 2127–46:** Yr hyn sy’n drawiadol am y casgliad hirfaith hwn o droedd yw’r ffaith bod y rhan fwyaf ohonynt, neu ryw amrywiad arnynt, yn digwydd eto mewn rhan neu rannau eraill o’r testun. Fodd bynnag, nid ailadrodd gwastraffus sydd yma. Weithiau ceir egluro a helaethu ar driawd sy’n llawer mwy cryno neu epigramatig ei fynegiant mewn man arall, ac weithiau ceir fersiwn hollol wahanol (yn adlewyrchu traddodiad gwahanol?) ar driawd sy’n agor mewn ffordd debyg. Dyma arwydd pellach o feddylfryd ‘hollgynhwysol’ y copïydd wrth iddo gynnwll defnyddiau i’w ‘ddeddfgrawn’. Gw. y Rhagymadrodd, tt. xv–xvi.
- 2000–2** Cf. §§ 69–71, 2185–7.
- 2000** **d6gadoed:** Amhersonol gorberfffaith mynegol y ferf *dygaf*: *dwyn*.
- 2002** **bocsachu:** ‘ymffrostio, bostio, brolio’; *GPC*, t. 292.
- 2003** Cf. §§ 1070–1, 2184.
- 2006–7** Cf. §§ 1113, 2172–4.
- 2007** **emher6:** Ai ffurf ar ferfenw’r ferf *ymyrraf*: *ymyrru* (cf. § 1579)? Ar yr orgraff, cf. *Llor* § 91:8 a *DamC* § 269.
- 2008** Cf. § 1049.
- 2012** Cf. § 15.
- 2013** Cf. § 2107.
- 2014** Cf. § 988.
- gyssyllia6:** ‘cysulio’; ‘cynghori, ymgynghori â’; *GPC*, t. 818. Tybed ai ‘gwrando cyffes’ yw’r ystyr, cf. *cysuliedig* ‘yr ymgynghorwyd yn ei gylch; cyffesedig’, a *cysuliwr*, ‘cynghorwr, gwrandawr cyffes’.
- 2015** Cf. § 1013.
- g6lla6:** ‘gwallaw’; ‘tywallt, arllwys, gollwng neu dynnu diod’; *GPC*, t. 1569.
- 2016–17** Cf. § 1415.

- 2017 **ach veda6l:** Cf. darlleniad *Q*, *ach uyda6l*.
- 2018 Cf. §§ 1442, 2175.
- 2020 **ac [ny] 6ypo:** Cf. § 2067, *ac na 6ypeu henryeid g6lad*.
- 2022–4 Cf. § 1015.
- 2036–9 Cf. §§ 281–6.
- 2038 **ac ymhen y na6ved dyd, kyfreith:** Hynny yw, ymhen yr ail nawfed dydd.
- 2039 **ac ymhen y trydydyd, kyfreith:** Yn ôl y testunau eraill, *ympen y nabuettyd* yr eid i'r gyfraith.
- 2040–3 Cf. §§ 1079.
- 2045 **eidieu:** 'eiddi'; 3 unigol benywaidd y rhagenw meddiannol; cf. § 464n.
- 2047–9 Cf. §§ 976–81.
- 2047 **ass6ellt:** Gw. § 976n.
ree: 're', cysefin *gre*. Ar ddefnyddio *ee* am /e:/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /e/.
- 2050 **chygha6a6c:** Mae *cynghawog* yn amrywiad ar *cynghafog*, 'cymhlethdod, dryswch, astrusi'; *GPC*, t. 736.
- 2054 **araf:** 'arf'.
- 2055 **breulif, vn ar bymtheg:** Yn ôl § 850, *deudec keinha6c* oedd gwerth *cledyf breulif*.
- 2057 Cf. § 1106.
lle6yna6c: 'llwynog'. Er ei bod yn bosibl nad yw *-e6y-* yn fwy nag orgraff anghyffredin am /ui/ (gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ui/), cf. y ffurf hon â *llewyn*, yn Ifor Williams (gol.), *Canu Aneirin* (Caerdydd, ail arg. 1961) ll. 1116n, ac â *llywynauc* yn *Llor*, § 137:6.
- 2059 **assgavaeth:** Ffurf amrywiol ar *ysgafaeth*, 'ysglyfaeth'; *GPC*, t. 3829.
- 2060 **a'e pieifyd:** Enghraifft o ddefnyddio ffurf ar *pieu* yn anghyflawn yn yr ystyr 'meddiannu'; gw. *GMW*, tt. 80–1.
- 2061–2 Cf. §§ 1072–3.
- 2063 **am vn o'r tri achos kyfreithol:** Gw. § 2064n.
- 2064 Cf. §§ 1961, 2190.
yna6: 'dymuno, chwennych'; *GPC*, t. 3704.
- 2065 **d6yn:** 'diwyn', hen ffurf ar ferfenw'r ferf *diwygiaf*: *diwygio*; *GPC*, t. 1063. Cf. § 2226n.
- 2066–9 Cf. §§ 273–5.
- 2070 Cf. § 972.
- 2072 **risk:** 'rhisg, rhisgl'.
- 2077 **llo[g]6yd:** '?Gwely angau, elor'; *GPC*, t. 2204.
- 2079–83 Cf. §§ 1985–7, 1995–9.
- 2085–6 Cf. §§ 987.
- 2087 Cf. §§ 985.
- 2088 **dylyeu y argl6yd [dial]:** Posibilrwydd arall fyddai diwygio'r testun i gyfateb i *Q*, *dialei y argl6yd*.
- 2089–90 Cf. §§ 1103, 2431–2.
- 2091–3 Cf. §§ 1219, 1964–6n.
- 2094 Cf. § 1061.
do6od: 'dofod'; 'da heb berchen iddo y digwydd i ddyn ei gael'; *GPC*, t. 1072. Er bod /v/ a /u/ yn amrywio yn nhafodiaith yr ardal hon (gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /v/), efallai bod seinyddiaeth y ffurf hon dan ddylanwad *dowod*, ffurf amrywiol ar y berfenw *dyfod*.

- 2099** **dothod:** ‘dothoedd’; 3 unigol gorberffaith mynegol y ferf *deuaf: dyfod*; gw. *GMW*, t. 134.
- 2100–5** Cf. §§ 1092–5.
- 2106** Cf. § 449.
tirtra, galanastra, a chrenyd nes: Darlleniad *Q, Ep, WML* yw *galanastra, dirtra a gbreicttra*, ond cf. *Lllor* §§ 79:12 ac 80:1.
- 2107** Cf. § 2013.
- 2109** **ae:** ‘a (+ â), cywasgiad o’r rhagenw perthynol a 3 unigol presennol mynegol y ferf *af: mynd*. Cf. hefyd § 1600n.
- 2110** **edyno:** ‘edduno’, ffurf amrywiol ar y ferf *addunaf: adduno*, ‘addo o ddifrif, gwneuthur adduned’ (*GPC*, t. 34), a ddefnyddir yma yn yr ystyr ‘gwneud llw, tyngu’. Er yr eglurir *kad6 kyn koll* yn fanwl yma, nid eir ymlaen i drafod na *geni a meithryn* nac *arbaessaf*, fel y byddid yn ei ddisgwyl ar sail § 2109. Manylir ar gyfraith *geni a meithryn* yn § 996, ond ni ddiffinnir *arbaessaf*—sef math ar warant— yn *S*.
- 2112** **kic heb groen:** Y mae *Q, Ep* yn fwy manwl, *kic hep penn hep croen hep traet*.
6el6: ‘welo’. Ar yr amrywio rhwng /o/ ac /u/ yn *S*, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /u/.
- 2114** **koleu:** ‘collei’.
- 2115** **ynn benvade:** ‘Wedi ei fforffedu’; *GPC*, t. 2744.
phayol: Y mae *Q, Ep* yn manylu, *phayol y6*.
- 2127** Cf. fersiwn helaethach *Q, Ep*, sy’n hollti ail fraich triawd *S* yn ddwy, gan droi’r triawd hwn yn bedwarawd: *Tri chanlyn di6all yssyd: canlyn k6yn hyt ar [r]6ym a chanlyn r6ym hyt at dadyl6ryaeth a chanlyn dadyl6ryaeth hyt pan gaer barn a chanlyn barn hyt pan gaer teruyn*.
- 2131–4** Cf. §§ 1643, 1924n., 2139.
- 2139** Cf. §§ 1643, 1924n., 2131–4.
- 2142** **chau:** ‘châi’.
- 2147** **bieifyd:** 3 unigol dyfodol *pieu*, cf. § 2060n. Braidd yn annisgwyl yw’r amser dyfodol yma; cf. darlleniad *Tim, bieuoed*.
- 2148** **chlodeir:** ‘chludair’; ‘rhywbeth a gesglir ynghyd, pentwr, tas, cruglwyth, llwyth, baich; pentwr o gynnud neu danwydd’; *GPC*, t. 509.
deod6f: ‘Cynnydd ym mhris gwartheg o dymor i dymor nes cyrraedd ohonynt eu llawn werth; cynnydd, ychwanegiad, amlhad’; *GPC*, t. 1144. Ceir nodyn ar ymyl y ddalen mewn llaw ddiweddarach, *twf, Godwf, Dyodwf*.
- 2153** **ynn di6yll:** yn ddall.
- 2155** **kwpyl:** ‘cwbl’.
- 2157** **ydyn:** Disgwylir *yda6* gan mai’r edling yn unig sy’n edrych yn ôl § 2156. Fodd bynnag, yn ôl *Q, Ep*, yr edling *neu braged diofreda6c* sy’n edrych; y mae’r ffurf luosog ar yr arddodiad yn *S* yn awgrymu bod y cymal hwn yn bresennol yn ei chynsail, neu un o’i rhagflaenwyr.
o’e: ‘i’w’. Gw. § 1466n.
- 2169** **dryd:** ‘un ffôl neu annoeth ei wrhydri, ffwl, ynfyd’; *GPC*, t. 1086.
maen dros iaen: Un o ymadroddion tywyll y llyfrau cyfraith. Am enghreifftiau eraill ynghyd â thrafodaeth, gw. Timothy Lewis, *A Glossary of Mediaeval Welsh Law* (Manceinion, 1913), tt. 211–12.
- 2172–4** Cf. §§ 1113, 2006–7.
- 2174** **dr6y:** ‘dirwy’.
- 2175** Cf. §§ 1442, 2018.

- 2177 koed kad6:** Darn o goedwig a neilltuwyd gan y perchennog ar gyfer pesgi moch ar fes. Gw. W. Linnard, 'Coed Cadw', *BBGC*, 27 (1978), 559.
ni dylir: Y mae *Q*, *Ep* yn cytuno ag *S* wrth roi'r negydd yma. Fodd bynnag, *e deleyr* sydd yn *DamC*, ac yn sicr dyma'r darlleniad gorau; cf. *AL*, cyf. ii, IX.xxx.3.
- 2180** Cf. § 1657.
2184 Cf. §§ 1070–1, 2003.
2185–7 Cf. §§ 69–71, 2000–2.
2188 Cf. § 1936.
2190 Cf. §§ 1961, 2064.
2194 lydir: Amhersonol presennol mynegol y ferf *lluddiaf*: *lluddias*, 'rhwystro, llesteirio, atal'; *GPC*, t. 2220.
2195–216 Crynodeb ac addasiad o ddeunydd a geir yn *Llor* §§ 73–4, 76–7 yw'r traethig hwn. Y mae *Tim* nid yn unig yn cynnwys yr addasiad hwn (ff. 45), ond hefyd fersiwn mwy cyflawn Ior (ff. 58).
2199 Ar ôl yr adnod hon, torrir ar draws y traethig hwn am Drefn Cyfreitha gan y ddwy adnod a ganlyn:
- ²²⁰⁰O deruyd bot kyss6ynvab my6n kenedyl ac nas g6atto y dat ynn y vy6yt, ac nas dycco y vam, ac g6edy meir6 y rai hynny dyg6ydo etifedieth o dir ida6, a cheissa6 y 6ady, kyfreith a d6eit na dylir, kans anamsserol y6'r g6at.
²²⁰¹O deruyd kissa6 g6ady dyn g6edy bo mar6, ni ddir y 6ady, keni ellir y gaffel yn gyfreithol 6rth y g6at.
- Ar sail dull y llaw ac arlliw'r inc gellid tybio bod yr adnodau hyn yn perthyn i gyfnod gwahanol o weithgarwch copïo i'r testun a orwedd oddeutu iddynt, a chan fod § 2202 yn dilyn yn esmwyth o ran ystyr o § 2199, y casgliad rhesymol yw bod §§ 2200–1 yn ychwanegiad diweddarach a osodwyd mewn gofod gwag a adawyd ar odre ff. 122. Y mae amryw o lsgrau Ior yn cynnwys cynllun o eisteddiad y llys yn y fan hon (gw. *Llor* § 73:11), a gellid tybio mai ar gyfer cynllun o'r fath y gadawyd yr ychydig ofod yma yn *S*; cf. y gofod a adawyd yn y man cyfatebol yn *B* ff. 22v (gw. *Llor*, t. xxxviii). Gwnaed cynllun o'r fath yn ddiangen yn *S* wedi gosod darluniad manwl o eisteddiad y llys ar flaen y testun (ff. 3v), ac y mae'n debygol mai yn sgil hynny y bu i'r copïydd fynd ati a gosod testun ysgrifenedig yn y gofod a adawsai.
- 2214 yffireiad:** Rhaid mai ffurf luosog sydd yma, yn cytuno ag *ygnoid* a *righylleid*, a cf. y cynllun ar ff. 3v a *Llor* § 73:5.
2217 Cf. § 1757.
2200 vrenhinees: Ar ddefnyddio *ee* am /e/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /e/.
2223 eifir: Darlleniad *Q*, *Ep*, *DamC* yw *eur*, er bod *Q*, *Ep* hefyd yn ychwanegu ar *meirch rennhyll* ar *geifyr* ar ddiwedd y rhestr.
essgynnu: Ffurf luosog yr enw *esgyn*, amrywiad ar *ysgîn*, 'mantell, clogyn'; *GPC*, t. 3836.
2226 ymd6yn: 'ymddiwyn'; gw. § 2065n.
2231–2 Cf. §§ 2499–500.
2231 argl6yd: Darlleniad *Q*, *Ep*, *J* a *DamC* yw *egl6ys*, a cf. § 2499.
2234 ac y haner o'r braga6d, ac y haner o'r med: Y mae hyn yn anghyffredin fel mesur *g6irab6d gyfreitha6l*, ac y mae'n debygol ei fod yn wall copïo. Darlleniad

- DamC* a *Tim* yw ac eu hanner o uragaut ac eu trayan o ued, a cf. *WML*, t. 25, *Llor* § 18:8, *LlBleg* § 30:10.
- 2236** **sef acha6s ... ynda6:** Gyda'r ymadrodd hwn y terfyna'r gyfatebiaeth agos rhwng *S* a *Tim*. Ceir darlleniad 'arferol' yr adnod yn *Tim*, *sef acha6s y6 6rth na dylir k6ynos o hona6*; cf. *DamC* § 213. Y mae'n debygol bod darlleniad *S* ar y llaw arall yn gynnyrch 'llam llygad'; cf. *Tim* ff. 45v, *Ni byd er6 diffodedic yn tir kyfrif kany dyly neb bryny er6 y vap y gilyd*, a gw. hefyd *DamC* § 215.
- 2237–306** Seiliwyd y traethig hwn am Lwgr Ŷd ar ymdriniaeth Ior; gw. *Llor* §§ 154–60. Cynhwyswyd fersiwn Bleg eisoes yn §§ 560–80.
- 2244** **ga6l:** 'bresych'; *GPC*, t. 442.
- 2245** **a'e hachvreu:** Er y gall *achfre* (*achwre*) olygu 'palis [...] o gwmpas adeilad', y mae'n debygol mai yn yr ystyr 'toad mewdol tŷ, yr haenen isaf o wiail plethedig' y'i defnyddir yma; *GPC*, t. 10.
- 2247** **o galan Ebrill:** Darlleniad *Llor* § 157:1 yw o vyl *Padryc* (sef 17 Mawrth).
- 2252** **Eirienyneu:** 'eirionynnau', sef ffurf luosog *eirionyn*, 'ymyl neu ffin ystlysol llain o dir'; *GPC*, t. 1198.
- 2258** **oryc:** Hen ffurf 3 unigol gorffennol mynegol y ferf *gwnaf: gwneuthur*. Dwy enghraifft arall yn unig o'r ffurf hon sydd yn *S*, yn §§ 2326–7, ac y mae'n debygol mai olion copio o gynsail hŷn ydynt (daw §§ 2258 a 2326–7 o ddeunydd Ior).
- 2296** **kartreu:** 'cartref'. Anghyffredin iawn yw cael *u* am /v/ yn y safle hwn, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /v/. Dichon mai gwall copio ydyw, trwy gydweddiad â *g6archeu* o bosibl. Ond cf. hefyd § 284n.
- 2298** **dros:** Â ffurf y llsgr., *dors*, cf. § 71, *dorsta6*.
- 2312** Cyflenwyd y testun o *Llor*.
- 2330** **korfflan:** Er bod *Q*, *Ep* a *G* yn cytuno â darlleniad *S*, y mae'n debygol y dylid deall y gair yn ffurf ar *corddlan* (neu *corlan*), '?gwelygordd, teulu; trefgordd'; *GPC*, t. 561. Ar y cymysgu rhwng *corfflan* a *corddlan*, gw. *LlCol* § 618n.
- 2332** **Braenar:** 'Tir wedi ei droi, tir wedi ei aredig a'i lyfnu a'i adael yn segur heb ei hau dros gyfnod er mwyn difa'r chwyn'; *GPC*, t. 305.
- 2333** **Braendail:** 'Tir y troir anifeiliaid iddo i'w wrteithio, gwndwn, tyndir'; *GPC*, t. 306.
- y gyhut arall:** 'yr un hyd eto', sef ar ôl dwy flynedd; cf. darlleniad *Llor* a *G*, *wyr euelly*.
- 2335** **pym mlyned:** Yn ôl *Llor*, *J*, *Ep* y mae *tyr guyd* i'w aredig fel *braenar*, sef ar ôl dwy flynedd.
- 2337** **Kardeil:** 'Tail neu wrtaith a gludir ar gar; tir wedi ei wrteithio â thail a gludwyd ar gar'; *GPC*, t. 424. Gw. hefyd Iorwerth C. Peate, 'cardail, cardel', *BBGC*, 10 (1940), 239–40.
- 2338** **pym mlynedd:** Yn ôl *Llor*, *G*, *J*, *Ep*, y mae *tyr coet* i'w aredig fel *kardeil*, sef ar ôl pedair blynedd.
- 2350** **bed6ar geir kolledic:** Nodir tri o'r rhain yn y tri chymal blaenorol, sef *en6i y dyn y holo* [...], *enwi y lledrat a holo*, a *phy veint o ledrat a holo*; y pedwerydd yw 'enwi'r amser y holo'. Cf. §§ 1419, 2446.
- yn llyossa6c:** '?yn gyffredin, gyda'i gilydd'; *GPC*, t. 2229.
- 2352** **kyfreith ac aghyfreith:** Darlleniad *Q*, *Ep*, *P*, *G* yw *kyfyeith ac anghyfyeth*.
- amheu:** 'amheui'; 2 unigol presennol mynegol y ferf *amheuaf: amau*.
- 2358** **vn o'r ffyrdd y llysir tyst:** Gellid llysu tyst am un o dri rheswm, gw. §§ 1274, 2106 a cf. § 966. Gellid gwneud hynny ar ôl iddo gymryd ei lw, gw. § 1271.

- 2360–74** Ar y traethig hwn, gw. Dafydd Jenkins, *Agricultural Co-operation in Welsh Medieval Law* (Cardiff, 1982).
- 2362** Ar fesuriadau erw gyfreithiol, gw. hefyd § 1774.
- 2363** **Yr er6 gyntaf ... y ch6echet y'r geil6at:** Y mae'r llsgrau yn amrywio cryn dipyn yn y fan hon. Cf. darlleniad *Llor*, *Er eru kyntaf e'r amaeth, er eyl e'r heyrn, a'r tryded e'r eytheuyc tywarch, a'r petwared e'r eytheuyc guellt, rac torry er yeu, a'r pymhet e'r geylwat*; darlleniad *Q, J*, *Yr er6 gyntaf yr amaeth bieiuyd, ar eil yr heyrn, ar tryded yr ch6echet ych kyuarch, y ped6ared yr ch6echet ych gbellt rac torri yr ieu, ar bymet yr geil6at*; darlleniad *Tim*, *Yr er6 gyntaf yr amaeth bieifyd, ar ail yr heyrn, ar dryded yr ch6eched ych gbellt, ped6red er6 yr ch6eched ych gbellt rac tori yr yeu, ar pymed yr geil6ad*.
eithetic: 'ych hydrin a dibynadwy a ieuid yn y safle bwysicaf yn y wedd, ?ych bôn'; *GPC*, t. 1203.
- 2374** Cyflenwyd y testun o *Tim*. Y mae'r traethig hwn ar Gyfar yn anorffenedig yn *S*, ond â ymlaen eto am 51 llinell yn *Tim*. Am berthynas § 2375 *et seq.* â gweddill y testun, gw. y Rhagymadrodd, tt. lxx–lxxi, a cf. § 2199n.
- 2375** Cf. § 2523. Y mae o leiaf dau wrthwynebiad i'r gosodiad hwn. 'Not only is it highly improbable that papal authority was ever given to laws which so frequently run counter to those of the Church, but there are also chronological objections. The compilation of the code belongs to Hywel's later years, not to the early period of his reign'; *HW*, t. 335. Fodd bynnag, nid oes rhaid credu nad aeth Hywel i Rufain—a hynny wedyn, y mae'n debyg, am resymau defosiynol—ond derbynnir 928 fel arfer yn flwyddyn debygol y bererindod honno, gw. Goronwy Edwards, *Hywel Dda and the Welsh Lawbooks*, Hywel Dda Millenary Lecture (Bangor, 1929), t. 4, a J. E. Lloyd, 'Hywel Dda: The Historical Setting', *Aberystwyth Studies*, 10 (1928), 1–4.
- 2376** Y mae *Z* yn rhoi 948 ar gyfer blwyddyn marw Hywel; gw. *LlPom*, § 1619. Ar gymhlethdod (ac anghysonder) cronoleg y gwahanol fersiynau o'r cronicl cynnar a adwaenir fel *Brut y Tywysogion*, gw., e.e., Thomas Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon or The Chronicle of the Princes: Peniarth MS. 20 Version* (Cardiff, 1952), tt. lxiv–lxviii. Y mae fersiwn Llyfr Coch Hergest o'r *Brut* yn rhoi 950 ar gyfer blwyddyn marw Hywel Dda; gw. J. E. Lloyd, 'Hywel Dda: The Historical Setting'. Y mae'r disgrifiad o Hywel fel *penn a moliant yr holl Vrytaniaid* yn adleisio cofnod y *Brut*.
- 2377–81** Ceir peth dryswch yn llsgrau Cyfraith Hywel wrth restru'r perthnasau sy'n talu galanas ac yn ei dderbyn, a hynny oherwydd cymysgu rhwng dull cyfraith yr eglwys o rifo carennydd a dull cyfraith Rhufain; gw. M. Gwyn Jenkins, 'Rhifo Carennydd yng Nghyfreithiau Rhufain, yr Eglwys, a Chymru', *BBGC*, 20 (1962–64), 348–72; Dafydd Jenkins, '“Camsyniadau F. W. Maitland”: Y Genedl Alanas yng Nghyfraith Hywel', *BBGC*, 22 (1966–68), 228–36. Dichon bod dryswch tebyg wedi codi yn achos y perthnasau a ddylai dderbyn rhan o dir wedi marw'r perchennog, ac mai ymgais i egluro'r gyfraith ar y mater hwnnw yw'r traethig bach hwn.
- 2380** **vyro:** 3 unigol presennol dibynnol y ferf *bwriaf: bwrw*; 'ystyrio'.
- 2381** **sserten:** 'rhyw faint, nifer, [...] rhyw gymaint'; *GPC*, t. 3232. I'r bymthegfed ganrif y perthyn yr enghreifftiau cynharaf o'r gair a nodir yn *GPC*.
- 2382** **Pwy bynnac a vyzho g6ybot ... :** Ar yr 'addysg' gyfreithiol amrywiol a geir yn y traethig estynedig hon, gw., e.e., Thomas Charles-Edwards, 'Cyngawsedd: Counting and Pleading in Medieval Welsh Law', *BBGC*, 33 (1986), 188–98; Sara Elin Roberts, 'Legal Practice in Fifteenth-Century Brycheiniog', *SC*, 35 (2001),

- 307–23; *eadem*, ‘Addysg Broffesiynol yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol: y Beirdd a’r Cyfreithwyr’, *LIC*, 26 (2003), 1–17; Robin Chapman Stacey, ‘Learning to Plead in Medieval Welsh Law’, *SC*, 38 (2004), 107–23; Aled Rhys Wiliam, ‘Llyfr Cynghawssedd’, *BBGC*, 35 (1988), 73–85.
- 2384** Sylwer ar y modd y mae’r adnod hon yn adleisio cymalau yn y Rhaglith i destunau Bleg (§§ 1–8), fel petai ymdrech arbennig yn cael ei gwneud i gysylltu’r traethig hwn â ‘chanon’ y dull hwnnw.
- 2387** **a geffir ynn lle arall ynn Lladin:** Methais ganfod cyfeiriad at hyn yn y testunau Lladin a gyhoeddwyd yn *LTWL*; am drafodaeth *S* ar y llys dygynnull, gw. §§ 1312–22.
- 2390** **myryedic:** ‘muriedig’; ‘wedi ei bennu, wedi ei gadarnhau, gosodedig’; *GPC*, t. 2503.
- 2401** **chyh6nei:** 3 unigol amherffaith dibynnol y ferf *cychwynnaf*: *cychwyn*.
6nathoidit: Amhersonol gorberffaith mynegol y ferf *gwnaf*: *gwneud*.
- 2431–2** Cf. §§ 1103, 2089–90.
- 2444** **tri g6eithred ar bra6f:** Gw. § 1128.
- 2445–6** Gw. §§ 1419, 2350.
- 2448–54** Cf. §§ 1342–7.
- 2448** **hen6i hen6:** Ffurfiâu amrywiol ar *enwi*, *enw*; *GPC*, tt. 2020–2. Cf. §§ 1450n, 1719n.
- 2450** **o gamoresgyn o vn o’r tri:** Gw. § 350.
y’r Tudyr: Er ei bod yn anarferol defnyddio’r fannod o flaen *enw* priod (gan fod *enwau* priod yn eu hanfod yn bendant), fe’i ceir mewn rhai cyd-destunau; gw. *GMW*, t. 26. Un o’r rheini yw pan fo rhagenw dangosol yn digwydd ar ôl yr *enw*, ac y mae’n bosibl felly y dylid diwygio’r testun yn y fan hon i *y’r Tudyr h6nn6*.
- 2452** **ieida6:** ‘eiddo’; cf. § 464n. Am ddulliau eraill o ddynodi /ei/, gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, dan /ei/.
- 2454** **ythioresgyn6yd:** ‘y’th ddiioresgynnwyd’.
ythiober6yd: ‘y’th ddioberwyd’.
- 2455** **G6yl Lyc:** 18 Hydref.
Marlais: Afonig sy’n llifo i afon Tywi nid nepell o Langadog, sir Gaerfyrddin (Grid Cenedlaethol 696288).
- 2460** **hyny dyngau:** Gw. § 1408n.
- 2466** **bangor:** Ystyr arferol *bangor* yw ‘plethwaith ar hyd crib gwrych mewn perth farw yn cryfhau ac yn clymu’r gweddill, gwaroden a rwymir ar hyd pen perth, bar croes mewn gwrych plethedig [...]’; *GPC*, t. 254. Fe’i defnyddir i olygu bar croes ar ddrws yn § 784. Fodd bynnag, digwydd y gair hefyd mewn ystyr ffigurol i olygu ‘nawdd, amddiffyn, cadarnhad’, a’r ystyr olaf hon sy’n berthnasol yma.
- 2467–72** Cf. §§ 1154–7.
- 2475** **o’r pan aner:** Darlleniad *Lllor, J, Q* yw *guedy bedydhyer*.
- 2476** **y dyly vod 6rth gyngor y that:** Cf. darlleniad *Lllor, Q, e dele bot urth noe y that*, a *J, ny dyly vynet y wrth noe y that*. Cf. hefyd § 2478.
- 2478** **ymrodi yhyman:** Cf. darlleniad *Lllor, J, Q, medu er eydy*.
- 2479–86** Dyma’r unig enghraifft o’r traethig bach hwn y gwyddys amdano. Deunydd moesol yn hytrach na deunydd cyfreithiol sydd ynddo, a gellir cymhwysu iddo lawer o sylwadau Hywel D. Emanuel yn ei drafodaeth ar ‘Saith Allwedd Ynadaeth’ yn Lladin B: ‘the actions and attitudes here recommended [...] were basically exhortatory principles which were widely known and used during the medieval centuries, and which, in fact, crystallized trends of thought and experience connected with the Scriptures and with patristic literature on the one

hand, and with elements of the thought of classical Rome on the other'; Emanuel, 'The Seven Keys of Wisdom', 36–7. Gw. hefyd §§ 1807–13. Er imi gael fy nhemtio i gysylltu *seith6yr doethon* y traethig hwn â thestun *Chwedleu Seith Doethon Rufein*, gan fod yr egwyddorion a'r agweddau a argymhellir yma'n themâu amlwg yn y chwedlau hwythau, nid oes cyfatebiaeth na pherthynas fanwl rhwng y naill destun a'r llall. Gw. Henry Lewis (gol.), *Chwedleu Seith Doethon Rufein* (Wrecsam, 1925). Y mae'n bosibl i'r ymadrodd 'Saith Doethion Rhufain' ddatblygu'r derm hwylus erbyn diwedd yr Oesoedd Canol, heb fod iddo unrhyw ymwybyddiaeth fanwl â thestun y chwedlau.

- 2490** **Keisser ych6anec ...** : Gw. §§ 762–74.
- 2499–500** Cf. §§ 2231–2.
- 2501** **na g6ad kyfreitha6l:** Darlleniad *J, Q, Ep, P* yw *no g6at kyfrif*, a cf. *Tim, no g6ad kyfrif kyfreith*.
- 2506** **bellach hynny:** Gw. § 750n.
- 2511** **edy:** 3 unigol presennol mynegol y ferf *addawaf: addo*.
yde6is: 3 unigol gorffennol mynegol y ferf *addawaf: addo*.
- 2518–24** Dyma ail fersiwn ar y Rhaglith, yn cynnwys 'hanes' cynhadledd y Tŷ Gwyn a thaith Hywel i Rufain i sicrhau bendith y Pab ar ei waith. Fe'i cadwyd hefyd yn *Z*. Defnyddiwyd testun yr ail raglith hon i ddibenion propaganda Protestannaidd gan William Salesbury yn ei bamffledyn, *Ban wedy i dynny*; gw. Christine James, 'Ban wedy i dynny: Medieval Welsh Law and Early Protestant Propaganda', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 27 (1994), 61–86. Gw. hefyd Pryce, 'The Prologues to the Welsh Lawbooks', 164–5, ac Owen, 'Royal Propaganda: Stories from the Law-texts', tt. 226–9.
- 2520** Nododd J. E. Lloyd yn *HW*, t. 340, mai rhestr o enwau cyfreithwyr enwog o wahanol gyfnodau a geir yma. Priodolir llunio dull Cyfn i Gyfnerth a Morgeneu, dyfynnir o waith Goronwy ap Moreiddig yn *Bleg*, a dywedir i Iorwerth ap Madog ddefnyddio gwaith Goronwy ap Moreiddig a Gwair ap Rhufon wrth roi trefn ar ddull Ior. Os cywir y dehonglwyd y llinellau Lladin (gw. § 2524n.), cyfeirir ynddynt at Gwrnerth Llwyd fel ynad llys, ac mewn adnod a ddaw yn union ar ôl y llinellau hynny yn Lladin D ceir y dystiolaeth bellach hon: *Gornnerth Lwyd mab Gwyberri bach erat iudex curie de Dineuwr in tempore Hywel Da*; 'gellir tybio ynteu fod y ddau hyn yn cyfoesi â Blegywryd'; *LlBleg*, t. xv. Awgrymodd Dafydd Jenkins yn 'A Family of Medieval Welsh Lawyers', *CLP*, t. 126, y gallai'r Iddig ap Llywarch a enwir yn ach Iorwerth ap Madog fod yn un â'r *Iddig ynat* a restrir yma. Ni wyddys dim am y lleill a restrir, a dichon nad ydynt ond enwau. 'Nid rhestr o'r *deudec lleyc* yw'r un [yma], ynteu, ond enwau cyfreithwyr enwog y digwyddodd i ryw "esboniwr" daro arnynt, gan ychwanegu atynt efallai o'i ddychymyg ei hun [...]. Rhyfedd iddo anghofio un gŵr enwog arall, Cynog (Kynawc) y cyfeirir at ei *lyfr* [...] [gw. § 410]. Diddorol yw sylwi mai'r unig gyfreithwyr a enwir mewn testun Lladin cynnar yw Cynog, Blegywryd, a Gwrnerth'; *LlBleg*, t. xvi.
- 2521-2** **Blege6ryd ... Lambert ... Mordaf ... a Chebur:** Cafodd Blegywryd ei enwi eisoes (gw. § 4n.), ond nid yw'r tri arall hyn yn ymddangos yn y Rhaglith gyntaf. Y mae'n bosibl mai'r Lambert y cyfeirir ato yw'r *lwmbert escob mynyw*, a fu farw yn 943 yn ôl cofnod *Brut y Tywysogyon*; gw. Thomas Jones, *Brut y Tywysogyon: Peniarth MS. 20* (Caerdydd, 1941), t. 8. Ceir sôn amdano hefyd yn gyfoeswr i Dewdwr ap Elise, brenin Brycheiniog, yn *Llyfr Llandaf*, lle y digwydd y ffurf *Lunberth* ar ei enw; gw. J. Gwenogvryn Evans a John Rhys (gol.), *The Text of the Book of Llan Dâv* (Oxford, 1893), tt. 238–9. Geill mai'r Mordaf a

enwir yn yr adnod hon yw *morcleis esgob bangor*, a fu farw yn 944 yn ôl y *Brut*; gw. Jones (gol.), *Brut y Tywysogyon*, t. 8. (Gallai *Morcleis* fod wedi troi'n *Mordaf* yn rhwydd, trwy gamddarllen *cl = d*, ac *f = f.*) Ni wyddys dim am *Cebur*, fodd bynnag—yn wir, y mae hanes esgobaeth Llanelwy yn bur niwlog tan y cyfnod Normanaidd, pan gysegrwyd Gilbert yn esgob yn 1143. Er bod Lambert a Mordaf yn gyfoeswyr â Hywel, ac na fyddai wedi bod yn amhosibl o safbwynt cronolegol iddynt fod yn gymdeithion ag ef ar daith i Rufain (gw. § 2375), gan mai mewn traddodiad diweddar yn unig y'u cysylltir â Hywel, y tebygrwydd yw mai enwau yw'r rhain a godwyd o'r *Brut*, neu ryw ffynhonnell debyg, gan y sawl a luniodd y rhan hon o'r testun er mwyn brodio'r 'hanes' moel.

Anestacis: Bu pedwar Pab o'r enw Anastasius: (i) o 27 Tachwedd 399 hyd 19 Rhagfyr 401; (ii) o 24 Tachwedd 496 hyd 19 Tachwedd 498; (iii) o c. Mehefin (neu Ebrill) 911 hyd c. Awst (neu Fehefin) 913; (iv) o 8 (neu 12?) Gorffennaf 1153 hyd 3 Rhagfyr 1154; gw. *New Catholic Encyclopedia*, s.n. Y mae'n rhaid felly mai Anastasius III a olygir, er nad ef oedd y Pab yn 914 (sef dyddiad taith Hywel i Rufain yn ôl y testun hwn), nac ychwaith yn 928 (sef y dyddiad a dderbynnir yn gyffredin ar gyfer ei bererindod); gw. § 2375n. Y Pabau ar gyfer y blynyddoedd hynny oedd Lando (Gorffennaf 913–Chwefror 914), Ioan X (Mawrth 914–Mai 928), Leo VI (Mai 928–Rhagfyr 928). Diddorol yw sylwi bod pabaeth Ioan X yn ymestyn o 914 hyd 928, sef y ddau ddyddiad dan sylw. Y mae orgraff *Anestacis* yn ddiddorol. Y ffurf Ladin oedd *Anestadius*, ond gan fod /-k-/ ar lafar mewn Lladin Canol wedi troi'n /-s-/ mewn rhai cysylltiadau, gellid yn hawdd ysgrifennu *c* am /s/.

am nad oed dim yn gôrthneby idi: Gw. § 2523n., ynghyd â'r Rhagymadrodd, tt. vii, x.

2523

Cf. § 2375.

2524

Trafodwyd y *gbersseu* Lladin hyn yn llawn yn John Rhÿs, 'Blegywryd's Hexameters', *Y Cymmrodor*, 18 (1905), 115–18, ac yn *LTWL*, t. 407; gw. hefyd *AL*, cyf. i, tt. xxxiv, 342.

2526–8

Cf. §§ 1299–301, 1482–4.

2531

Cf. §§ 1814–21.